Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Grymuso'r Gymraeg drwy lywodraethiant cadarn

## Adroddiad ar berfformiad sefydliadau 2024-25

Gorffennaf 2025



# Cynnwys

**1. Rhagair** **3**

**2. Crynodeb gweithredol** **4**

**3. Gwreiddio'r dull o gyd-reoleiddio** **6**

**4. Cyflawni'r deilliannau** **8**

4.1 Cyflwyniad 8

4.2 Deilliant 1: Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur 8

4.3 Deilliant 2: Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt 35

4.4 Deilliant 3: Sefydliadau'n rhoi sylw daladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg 43

4.5 Deilliant 4: Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd 47

4.6 Deilliant 5: Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd 50

4.7 Deilliant 6: Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo 55

**Atodiad 1: Rhestr gyflawn o'r sefydliadau gafodd eu monitro fesul blwyddyn dros y pedair mlynedd ddiwethaf** **60**

**Atodiad 2: Cynllun monitro, asesu a gweithredu 2021-2025** **73**

# 1. Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu blwyddyn arall o waith manwl i fonitro, asesu a hyrwyddo cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith. Mae'n dystiolaeth o'n hymrwymiad parhaus i sicrhau bod defnyddwyr y Gymraeg yn gallu byw eu bywydau drwy'r Gymraeg, ac i sicrhau bod sefydliadau'n gweithredu'n effeithiol, yn atebol ac yn uchelgeisiol wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Rwy'n falch o weld bod lefelau cydymffurfiaeth yn parhau i wella mewn sawl maes, ac mae'n galonogol bod mwy o sefydliadau'n dangos ymrwymiad i integreiddio'r Gymraeg yn strategol o fewn eu gwaith. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn hefyd yn tynnu sylw at feysydd lle mae'r cynnydd yn rhy araf neu'n anghyson – yn enwedig o ran gwasanaethau ffôn, gwasanaethau derbynfeydd a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r dull o gyd-reoleiddio yn parhau i fod yn ganolog i'n gwaith – dull sy'n seiliedig ar gydweithio, ymddiriedaeth a chyfrifoldeb ar y cyd. Rydym wedi gweld manteision y dull hwn drwy'r fforymau sectorol, y prosiectau thematig a'r gwaith hyrwyddo rydym wedi'i wneud gyda sefydliadau ledled Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ond mae cyd-reoleiddio hefyd yn gofyn am onestrwydd, tryloywder ac ymrwymiad gwirioneddol gan sefydliadau i hunan fonitro, i adnabod bylchau, ac i weithredu'n bwrpasol i wella.

Mae'r adroddiad yn nodi chwe deilliant rheoleiddio sy'n sail i'n dull o fesur cynnydd. Mae'r deilliannau hyn yn canolbwyntio ar ganlyniadau go iawn i ddefnyddwyr y Gymraeg – nid cydymffurfiaeth arwynebol, ond newid ystyrlon a pharhaus. Rwy'n annog pob sefydliad i ddefnyddio'r deilliannau hyn fel fframwaith i hunanasesu, i gynllunio'n strategol, ac i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'u gwasanaethau a'u diwylliant sefydliadol.





**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

## 2. Crynodeb gweithredol

**2.1** Mae'r adroddiad hwn ar gyfer 2024-25 yn adlewyrchu blwyddyn arall o waith manwl gan Gomisiynydd y Gymraeg i fonitro, asesu a hyrwyddo cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith. Mae'n dystiolaeth o'r ymrwymiad parhaus i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu byw eu bywydau drwy'r Gymraeg, ac i sicrhau bod sefydliadau'n gweithredu'n effeithiol, yn atebol ac yn uchelgeisiol wrth gyflawni eu dyletswyddau.

**2.2** Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd cyson mewn cydymffurfiaeth ar draws nifer o feysydd, gan gynnwys dogfennau, cyfryngau cymdeithasol ac hysbysebu swyddi. Mae llawer o sefydliadau bellach wedi gwreiddio'r safonau yn eu gwaith dydd i ddydd, gan ddangos ymrwymiad clir i'r Gymraeg.

**2.3** Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at feysydd lle mae'r cynnydd yn araf neu'n anghyson. Yn benodol, mae gwasanaethau ffôn a derbynfeydd yn parhau i fod yn heriol, gyda lefelau cydymffurfiaeth isel a chynnydd cymharol araf dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i sefydliadau flaenoriaethu'r gwasanaethau rheng flaen hyn wrth gynllunio'r gweithlu a dulliau recriwtio.

**2.4** Mae'r sectorau iechyd ac addysg wedi dangos cynnydd mesuradwy, yn enwedig o ran dogfennau, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol. Serch hynny, mae bylchau'n parhau mewn meysydd fel ffurflenni a gwasanaethau ffôn, ac mae angen parhau i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau a chynllunio ieithyddol strategol.

**2.5** O ran hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, mae'r adroddiad yn dangos amrywiaeth sylweddol rhwng sefydliadau. Er bod rhai wedi datblygu dulliau arloesol ac effeithiol, mae eraill yn parhau i fethu â chyfleu'n glir bod gwasanaethau Cymraeg ar gael. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ymddygiad defnyddwyr ac ar eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg.

**2.6** Mae'r adroddiad yn tanlinellu'r angen i sefydliadau adolygu a chryfhau eu cynlluniau iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau bod y gwaith o baratoi ar gyfer pontio i gyfundrefn safonau'r Gymraeg yn dechrau'n brydlon ac ar sail gadarn. Dylai'r cynlluniau hyn adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol yn fanwl, a nodi camau pendant i'w gwella dros y cyfnod sydd i ddod.

**2.7** Gyda nifer o strategaethau hybu presennol yn prysur agosáu at ddiwedd eu cyfnod, dylai sefydliadau sicrhau, wrth eu gwerthuso ac adolygu, eu bod yn ystyried ac yn gweithredu argymhellion diweddar y Comisiynydd.

Dylai'r strategaethau diwygiedig hefyd adlewyrchu'r newidiadau polisi a deddfwriaethol sydd ar y gorwel – gan gynnwys gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, yn ogystal ag unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

**2.8** Yn olaf, mae'r adroddiad yn galw am gryfhau trefniadau llywodraethu, adrodd a chwynion. Mae angen i sefydliadau sicrhau tryloywder, atebolrwydd a chraffu ar lefel strategol, gan gynnwys sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i drafodaethau bwrdd a phrosesau monitro perfformiad.

**2.9** Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion clir ar gyfer pob un o'r chwe deilliant rheoleiddio, gan annog sefydliadau i weithredu'n fwriadol ac yn strategol i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'u gwasanaethau, eu diwylliant sefydliadol a'u gwaith.


# 3. Gwreiddio'r dull o gyd-reoleiddio

**3.1** Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, rydym wedi parhau i ddatblygu ac atgyfnerthu'r dull o gyd-reoleiddio fel ffordd o ysgogi gwelliant parhaus ym mherfformiad sefydliadau o ran eu dyletswyddau iaith. Mae'r dull hwn yn ceisio taro'r cydbwysedd cywir rhwng cymell a chefnogi sefydliadau i wella'n barhaus, a gosod disgwyliadau clir a gorfodi pan fo angen. Mae'n seiliedig ar egwyddorion o gydweithio, ymddiriedaeth, a chyfrifoldeb ar y cyd, gan feithrin diwylliant o hunan reoleiddio effeithiol ochr yn ochr â chraffu rheoleiddiol cadarn.


**3.2** Er mwyn sicrhau bod y dull hwn yn arwain at ganlyniadau pendant, mae'r Comisiynydd wedi pennu chwe deilliant rheoleiddio sy'n gosod disgwyliadau clir a mesuradwy ar gyfer sefydliadau. Mae'r deilliannau hyn yn darparu fframwaith ar gyfer asesu cynnydd ac yn sicrhau bod sefydliadau'n cael eu dal yn atebol am gydymffurfiaeth.



**Deilliant 1:** Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur



**Deilliant 2:** Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt



**Deilliant 3:** Sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg



**Deilliant 4:** Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd




**Deilliant 5:** Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd



**Deilliant 6:** Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



3.3 Mae'r deilliannau hyn yn sicrhau bod y gwaith rheoleiddio yn canolbwyntio ar ganlyniadau go iawn i ddefnyddwyr y Gymraeg, gan osgoi'r perygl o gydymffurfio arwynebol yn unig. Maent hefyd yn adlewyrchu nodau cyffredin rhwng y Comisiynydd, sefydliadau cyhoeddus a'r cyhoedd, gan feithrin ymdeimlad o berchnogaeth ar y cyd.

3.4 Un o'r prif gamau tuag at wreiddio'r dull hwn oedd sefydlu fforymau strategol ar y cyd â sefydliadau a phartneriaid fel ei gilydd. Mae'r fforymau hyn yn darparu gofod strwythuredig i fonitro cynnydd, rhannu arferion gorau, a datblygu atebion ar y cyd i heriau cyffredin. Maent hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r deilliannau rheoleiddio, gan sicrhau bod trafodaethau strategol yn cael eu seilio ar ganlyniadau pendant ac atebolrwydd clir.

3.5 Bydd y deilliannau rheoleiddio yn parhau i fod yn ganolog i'r dull hwn, gan sicrhau bod y Gymraeg nid yn unig yn bresennol mewn polisïau a strategaethau, ond yn rhan annatod o brofiad y defnyddiwr o wasanaethau cyhoeddus.

3.6 Er mwyn sicrhau bod gwaith rheoleiddio'r Comisiynydd yn parhau i adlewyrchu egwyddorion cyd-reoleiddio, rydym wedi datblygu Cynllun Hyrwyddo Cydymffurfiaeth newydd ar gyfer 2025-26. Mae'r cynllun hwn yn nodi tair blaenoriaeth allweddol:

- **Datblygu'r feddylfryd o gyd-reoleiddio** – gan feithrin amgylchedd lle gall sefydliadau droi at y Comisiynydd am gymorth, codi pryderon neu rwystrau heb ofni y bydd hynny'n cael ei ystyried yn fethiant
- **Cryfhau ymddiriedaeth ac atebolrwydd** – drwy annog sefydliadau i berchnogi'r broses o hunan fonitro, casglu a rhannu data, ac adrodd yn dryloyw ar eu perfformiad
- **Datblygu dulliau monitro a hyrwyddo cadarn** – fydd yn cynnig sicrwydd gwell am gydymffurfiaeth ar draws ystod lawn y safonau.

3.7 Bydd y blaenoriaethau hyn yn cael eu cyflawni drwy raglen weithgar sy'n cynnwys hyrwyddo cydymffurfiaeth, monitro systematig, ac adrodd ar ganlyniadau gweithgareddau rheoleiddio.

# 4. Cyflawni'r deilliannau

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae'r adran hon yn ystyried y graddau y mae sefydliadau wedi llwyddo i gyflawni amcanion y deilliannau rheoleiddio. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth ddaeth i feddiant y Comisiynydd yn ystod 2024-25, gan gynnwys:

- Monitro – cynnal arolygon profiad defnyddwyr
- Holiaduron hunanasesu y sefydliadau
- Gwirio adroddiadau blynyddol, dogfennau atodol a hysbysebion swyddi
- Cyswllt â sefydliadau – argraffiadau swyddogion sy'n delio â sefydliadau wrth roi cefnogaeth i gydymffurfio, gosod safonau, a chynnal ymchwiliadau
- Cyfarfodydd casglu tystiolaeth
- Prosiectau a gwaith thematig
- Cwynion ac ymchwiliadau.

## 4.2 Deilliant 1: Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur

### Sefydliadau sydd o dan safonau'r gymraeg

### Darlun cyffredinol

4.2.1 Mae'r deilliant hwn yn cyfeirio at allu sefydliadau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, ac yn ymwneud yn benodol â'r dosbarth cyntaf o safonau a nodir yn hysbysiadau cydymffurfio'r sefydliadau – sef y safonau sy'n gosod gofynion ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

4.2.2 Mae'n galonogol nodi bod ein gwaith rheoleiddio ac arolygu dros y flwyddyn ddiwethaf yn dangos bod lefelau cydymffurfiaeth yn parhau i wella'n gyffredinol.

4.2.3 Mae nifer sylweddol o sefydliadau bellach wedi bod yn gweithredu'r safonau ers sawl blwyddyn, ac mae'r cynnydd cyson yn lefelau cydymffurfiaeth dros y blynyddoedd diwethaf yn awgrymu bod ymwybyddiaeth o'r gofynion wedi gwreiddio ac yn rhan annatod o weithgareddau'r sefydliadau.

**4.2.4** Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r Comisiynydd wedi mesur gallu sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau hyn drwy gynnal arolygon, gan ganolbwyntio ar naw maes gwasanaeth allweddol:


- Gohebiaeth
- Gwasanaethau ffôn
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu
- Dogfennau
- Ffurflenni
- Gwefannau a gwasanaethau ar-lein
- Cyfryngau cymdeithasol
- Hunaniaeth gorfforaethol
- Hysbysebion swyddi.

**4.2.5** Mae'r tabl isod yn dangos y ganran o'r sampl a arolygwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf a oedd yn cydymffurfio â'r safonau hyn (pob sefydliad wedi ei arolygu o leiaf unwaith dros y cyfnod o ddwy flynedd). Mae'r data'n dangos bod sefydliadau, yn gyffredinol, yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg gyda'r ganran oedd yn cydymffurfio â'r dyletswyddau dros 90% ar gyfer 6 allan o 9 o'r gwasanaethau a wiriwyd.

| Gwasanaeth | Canran 2023-24 | Canran 2024-25 |
|---|---|---|
| Gohebiaeth: derbyn ymatebion yn Gymraeg* | 88% | 90% |
| Gwasanaethau ffôn: delio â'r alwad yn llawn yn Gymraeg | 56% | 63% |
| Deunydd cyhoeddusrwydd ar-lein ar gael yn Gymraeg | 70% | 80% |
| Dogfennau ar gael yn Gymraeg | 89% | 93% |
| Ffurflenni ar gael yn Gymraeg | 83% | 88% |
| Gwefannau: tudalennau ar gael yn Gymraeg | 91% | 92% |
| Cyfryngau cymdeithasol (Facebook ac X): post ar gael yn Gymraeg | 89% | 95% |
| Hunaniaeth gorfforaethol | 83% | 95% |
| Hysbyseb swydd ar gael yn Gymraeg | 84% | 90% |

* Pan dderbyniwyd ateb


**4.2.6** Gellir gweld, o gymharu â data'r blynyddoedd blaenorol, fod y ganran yn cydymffurfio wedi cynyddu, gan ddangos gwelliant cyson flwyddyn ar ôl blwyddyn.





**4.2.7** Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod lefelau cydymffurfiaeth yn parhau i fod yn gyson ac yn uchel ar draws y gwasanaethau hynny lle mae elfen gref o reolaeth ganolog o fewn sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel hunaniaeth gorfforaethol a gwefannau, sydd fel arfer dan reolaeth un tîm penodol o swyddogion.

**4.2.8** Fel rhan o'r gwaith monitro, rhannwyd y sefydliadau i ddau grŵp sampl i'w gwirio bob yn ail flwyddyn gyda grŵp 1 yn cael eu monitro yn ystod 2021-2022 a 2023-2024 a grŵp 2 yn cael eu monitro yn ystod 2022-2023 a 2024-2025. Mae'r rhestr o'r sefydliadau oedd yn rhan o'r grwpiau sampl i'w gweld yn atodiad 1. O edrych ar y canlyniadau fesul grŵp sampl mae'n glir bod cynnydd wedi bod yn y lefel o gydymffurfiaeth yn rhan helaeth o'r gwasanaethau a wiriwyd.

## Grŵp 1:




## Grŵp 2:





**4.2.9** Yn ogystal ag arolygon gwirio, mae'r Comisiynydd wedi bod yn dosbarthu holiadur hunan-asesu'n flynyddol i sefydliadau. Wrth ymateb i'r holiadur, gofynnir i sefydliadau hunan-asesu eu cydymffurfiaeth ar draws gwahanol feysydd a gwasanaethau yn unol â'r safonau, gan nodi lefel sicrwydd – "uchel, canolig, isel neu dim sicrwydd" – ar gyfer pob categori.


**4.2.10** Eleni, derbyniwyd ymatebion gan 75 o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg. Cafodd yr ymatebion hyn eu hasesu fel rhan o brosesau monitro'r Comisiynydd ar gyfer sefydliadau unigol, gyda'r nod o adnabod llwyddiannau, bylchau, a meysydd sydd angen gweithredu pellach.

## Gwasanaethau ffôn

**4.2.11** Cofnodwyd gostyngiad o 4% ers y llynedd yn y ganran o alwadau a gafodd eu hateb gyda chyfarchiad Cymraeg fel rhan o'r gwaith arolygu, er bod y ganran gyffredinol yn dal i fod yn 84% ar draws yr holl reoliadau. Gan fod cyfarchiad Cymraeg yn gallu dylanwadu'n sylweddol ar ddewis iaith unigolyn wrth gysylltu â sefydliad am y tro cyntaf, mae unrhyw ostyngiad yn y gyfradd hon yn peri pryder.




**4.2.12** Er bod 63% o'r holl alwadau a wnaed gan swyddogion wedi derbyn ymateb llawn yn y Gymraeg – y gyfradd uchaf a gofnodwyd yn y blynyddoedd diwethaf – ac yn adlewyrchu gwelliant cyffredinol, roedd y canlyniadau ar draws y gwahanol sectorau yn amrywio'n sylweddol. Y cynnydd mwyaf a welwyd oedd ymhlith sefydliadau Rheoliadau Rhif 4 (Tribiwnlysoedd Cymru), lle cyrhaeddodd y lefel cydymffurfiaeth 100%, sef cynnydd o 23% ers y llynedd.



**4.2.13** Yn ystod 2024-2025, cafodd 9 sefydliad o dan Reoliadau Rhif 1 eu categoreiddio fel rhai risg isel, ac roedd pob un ohonynt yn perfformio ar lefel o 100% ac yn gallu delio efo'r alwad yn ei chyfanrwydd yn Gymraeg.

**4.2.14** Fodd bynnag, rhwng mis Ebrill 2021 a Mawrth 2025, bu cynnydd cymharol araf yn y ganran sy'n dangos gallu sefydliadau ar draws y sectorau i ddelio â galwadau a darparu ateb cyflawn yn Gymraeg – gan godi o 56% yn 2021-22 i 63% yn 2024-25 yn unig. Mae hyn yn awgrymu bod cynnydd yn digwydd, ond ei fod yn rhy araf o ystyried hyd y cyfnod, ac yn tanlinellu'r angen i sefydliadau weithredu'n fwy pendant i wella'r ddarpariaeth yn y maes hwn.

**4.2.15** Wrth ymateb i'r holiadur hunan-asesu, dim ond 48% o'r sefydliadau nododd lefel uchel o sicrwydd o ran eu gwasanaethau ffôn, gyda 47% yn nodi lefel sicrwydd canolig. Mae sefydliadau wedi nodi nifer o resymau pam nad oes mwy o lwyddiant gyda chydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud â gwasanaethau ffôn. Y rhai mwyaf cyffredin ymhlith y rhain yw anhawster i recriwtio siaradwyr Cymraeg, a'r ffaith bod trosiant staff yn y swyddi hyn yn gallu bod yn uchel.

**4.2.16** Gellir casglu bod cydymffurfiaeth yn tueddu i fod yn is pan fydd mwy o ddibyniaeth ar sgiliau llafar staff yn enwedig y staff hynny sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen a sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd. Mae hyn yn wir hefyd pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu ar draws sawl adran, gan leihau'r elfen o reolaeth ganolog. Amlygir hyn yn y ffaith bod gwasanaethau ffôn yn parhau i fod ymhlith y rhai isaf o ran lefel cydymffurfiaeth.

**4.2.17** Gan gydnabod yr heriau hyn, mae'n hanfodol i sefydliadau chwilio am atebion amgen, gan sicrhau eu bod yn blaenoriaethu'r gwasanaethau rheng flaen hyn wrth adolygu dulliau recriwtio a mapio sgiliau'r gweithlu.

**4.2.18** Byddwn yn parhau i gadw golwg fanwl ar y sefyllfa, gan drafod gyda sefydliadau unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'w harferion recriwtio, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus a chydymffurfiaeth gadarn â'r safonau.

### Arfer da

Yn ystod Awst 2024, cynhaliodd Swyddog y Gymraeg Cyngor Sir Powys arolygon gwirio cydymffurfiaeth â'r safonau gwasanaethau ffôn drwy wneud galwadau cudd i linellau cymorth cyhoeddus y cyngor. Trwy'r broses hon, canfuwyd methiant i gydymffurfio â'r safonau. O ganlyniad, hysbyswyd Rheolwr y Gymraeg a phenaethiaid yr adrannau perthnasol.

Yn dilyn hynny, cyfarwyddodd y Swyddog y penaethiaid gwasanaethau ar y gofynion sy'n ymwneud â delio â galwadau ffôn a gohebiaeth, mewn cyfarfod o'r Uwch-dîm Arwain ym Medi 2024. Mae'r Swyddog yn parhau i gynnal galwadau siopwr cudd yn fisol i fonitro gwelliant mewn cydymffurfiaeth, ac yn adrodd y canfyddiadau i Reolwr y Gymraeg a'r penaethiaid adrannau.

## Deunydd cyhoeddusrwydd a chyfryngau cymdeithasol

**4.2.19** Mae'r defnydd o'r Gymraeg mewn deunyddiau ac ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn ganolog i feithrin ethos dwyieithog sefydliadol.

**4.2.20** Yn yr ymatebion i'r holiaduron hunan-asesu, nododd 83% o sefydliadau lefel uchel o sicrwydd o ran eu deunyddiau cyhoeddusrwydd. Roedd 80% o'r enghreifftiau o ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu a gafodd eu harolygu ar gael yn Gymraeg – ffigur sy'n gymharol agos at lefel y sicrwydd a nodwyd gan y sefydliadau eu hunain, ac sy'n awgrymu bod y darlun a gyflwynwyd ganddynt yn eithaf cyson â'r darganfyddiadau gwirio.

**4.2.21** Gwelwyd gwelliant nodedig ymhlith sefydliadau Rheoliadau Rhif 5 (Prif Gwnstabliaid ac Awdurdodau Heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ac Awdurdodau Tân ac Achub), gyda nifer o enghreifftiau oedd yn cydymffurfio â gofynion y safonau yn cynyddu o 43% yn 2023-24 i 72% eleni. Gwelwyd hefyd cynnydd yng nghydymffurfiaeth sefydliadau Rheoliadau Rhif 7 (Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG), gyda'r ganran yn cydymffurfio yn codi o 22% yn 2023-24 i 53% yn 2024-25.

**4.2.22** Er bod y cynnydd hwn yn galonogol, mae'r ffigurau'n dangos bod y man cychwyn yn isel iawn, ac felly mae'n tanlinellu'r angen i sefydliadau barhau i adeiladu ar y cynnydd hwn drwy gamau pendant i sicrhau cydymffurfiaeth gadarn a chyson.

**4.2.23** O ran cyfryngau cymdeithasol, mae'n ymddangos o'r holiaduron hunan-asesu bod sefydliadau bellach yn fwy hyderus yn eu trefniadau, gyda 99% yn nodi lefel uchel neu ganolig o sicrwydd.

**4.2.24** Er bod ein harolygon wedi dangos cyfradd uchel o gydymffurfiaeth â'r safonau cyfryngau cymdeithasol – gyda 95% o'r postiadau a gafodd eu harolygu ar gael yn Gymraeg – mae rhai problemau'n parhau, yn enwedig o ran rhannu fideos yn ddwyieithog a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth bostio negeseuon. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gydymffurfiaeth â'r safonau cyhoeddusrwydd a hysbysebu.

**4.2.25** Dylid nodi mai dim ond platfformau X (Twitter gynt) a Facebook sydd wedi'u cynnwys yn y gwaith gwirio gan y Comisiynydd dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn ymwybodol bod defnydd sefydliadau cyhoeddus o gyfryngau cymdeithasol wedi newid yn sylweddol yn ddiweddar, gyda phlatfformau eraill yn dod yn fwy poblogaidd. O ganlyniad, bydd y Comisiynydd yn ystyried cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus ag ystod ehangach o blatfformau cyfryngau cymdeithasol o'r flwyddyn nesaf ymlaen.

### Arfer da

Mae Heddlu Gwent wedi datblygu banc o negeseuon safonol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg a Saesneg, gyda graffeg barod i'w defnyddio – e.e. negeseuon fel “Ffordd ar Gau” neu rybuddion am ddamweiniau. Mae'r trefniant hwn yn sicrhau cywirdeb a chysondeb drwy ddefnyddio templedi penodol yn y ddwy iaith, gyda'r manylion perthnasol yn cael eu llenwi fesul digwyddiad neu sefyllfa sy'n galw am sylw.

Mae gan y llu fframwaith o negeseuon dwyieithog, ac fe ddefnyddir y templedi hyn gan y tîm cyfathrebu yn bennaf mewn achosion lle nad oedd staff Cymraeg ar gael, neu y tu allan i oriau swyddfa arferol ac ar benwythnosau.

## Ffurflenni


**4.2.26** Roedd 88% o'r holl ffurflenni a arolygwyd yn ystod 2024-25 ar gael yn Gymraeg – cynnydd o 5% o'i gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer fawr o'r sefydliadau yn perfformio yn dda, gyda lefelau cydymffurfiaeth yn uwch na 90%.

**4.2.27** Mae'n bwysig nodi, serch hynny, ein bod wedi gweld newid yn y ffordd y mae sefydliadau'n rhannu ffurflenni, wrth i fwy o wasanaethau gael eu trosglwyddo i lwyfannau ar-lein. Wrth i nifer o sefydliadau ddatblygu systemau hunanwasanaeth sy'n gofyn i unigolion greu cyfrif er mwyn llenwi ffurflenni neu wneud ceisiadau am wasanaethau, mae'n dod yn fwy heriol casglu tystiolaeth am brofiad y defnyddiwr.


**4.2.28** O ganlyniad, mae'n hanfodol bod sefydliadau'n rhoi ystyriaeth briodol i'r safonau perthnasol wrth osod ffurflenni ar systemau hunanwasanaeth, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn y cyd-destun hwn – boed wrth osod ffurflenni ar wefan neu fel rhan o borth hunanwasanaeth – mae'n bwysig ystyried yr holl ofynion sy'n berthnasol i ffurflenni a gwefannau, er mwyn sicrhau profiad cyfartal a chyson i ddefnyddwyr Cymraeg.

## Gwefannau

**4.2.29** Mae'r gyfradd cydymffurfiaeth gyffredinol ar draws pob sector yn dangos bod dros 80% o dudalennau gwefannau ar gael yn Gymraeg, gyda sefydliadau o fewn 4 set o reoliadau yn cyrraedd cyfraddau o dros 90%.



**4.2.30** Mae hefyd yn galonogol nodi bod cyfartaledd y tudalennau sydd ar gael yn Gymraeg wedi cynyddu'n flynyddol ers 2021-2022.




**4.2.31** Fodd bynnag, o ystyried datblygiadau technolegol a'r adnoddau sydd ar gael erbyn hyn, dylai pob sefydliad allu sicrhau bod eu gwefan yn gwbl ddwyieithog, gan sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau perthnasol a darparu profiad cyfartal i ddefnyddwyr Cymraeg.


### Arfer da

Mae'r feddalwedd sy'n cefnogi gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn atal unrhyw gynnwys yn Saesneg rhag cael ei gyflwyno, ei newid neu ei ddiweddaru ar y wefan oni bai bod y cynnwys cyfatebol yn Gymraeg hefyd yn cael ei ddarparu. Mae'r Cyngor hefyd wedi comisiynu cwmni ymgynghorol i gynnal adolygiad o'r wefan, gyda chynrychiolaeth o Wasanaethau Cymraeg y Cyngor ar y bwrdd prosiect. Penllanw'r gwaith hwn fydd pennu'r ffordd ymlaen o ran cynnwys, golygu, gweithredu a gweinyddu'r wefan, gan sicrhau bod y Gymraeg yn chwarae rhan ganolog yn y broses.


## Hysbysebu swyddi a recriwtio

**4.2.32** Wrth ymateb i'r holiaduron hunan-asesu, nododd 99% o sefydliadau lefel uchel neu ganolig o sicrwydd o ran eu trefniadau recriwtio. Ac unwaith eto eleni, mae'n galonogol nodi bod ein gwaith gwirio wedi dangos cynnydd pellach yn nifer yr hysbysebion swyddi sydd ar gael yn Gymraeg – gan barhau â'r patrwm cadarnhaol sydd wedi bodoli ers 2018.

**4.2.33** Mae'r gyfradd gyffredinol bellach yn sefyll ar 90% ar draws yr holl sefydliadau. Yn ogystal, nodwyd lefelau cydymffurfiaeth o 100% ymhlith sefydliadau o dan Reoliadau Rhif 2, 4 a 5, a 99% o dan Reoliadau Rhif 1.




**4.2.34** Mae gofyniad penodol o fewn y safonau sydd yn nodi os yw swydd wedi ei chategoreiddio fel un lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, dymunol neu angen dysgu, bod hefyd angen hysbysebu y swydd honno yn Gymraeg. Dros y pedair blynedd diwethaf mae cynnydd wedi bod yn y gyfradd cydymffurfiaeth â'r safon hwn ar draws y sefydliadau i gyd, fel y gwelir yn y tabl isod.





Ni adroddwyd ar ddata sefydliadau Rhif 2 a 4 yn ystod 2021-2022 oherwydd prinder data ystyrlon o'r cyfnod arolygu.

**4.2.35** Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o sylw wedi'i roi i ddulliau asesu sgiliau a hysbysebu swyddi, yn ogystal â'r angen i sefydliadau ystyried anghenion ieithyddol fel rhan o'u trefniadau cynllunio gweithlu. Er bod llawer o waith da yn cael ei wneud i wella'r agweddau hyn, mae amrywiaeth sylweddol yn parhau yn y ffordd y caiff anghenion ieithyddol swyddi eu nodi a'u mynegi mewn hysbysebion. O ganlyniad, mae'n dal i fod yn aneglur i ymgeiswyr ar adegau beth yn union yw'r gofynion ieithyddol ar gyfer y swydd.

**4.2.36** Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau yn ystod y cyfnod nesaf i fynd i'r afael â'r amrywiaeth hon. Bydd y gwaith hwn hefyd yn rhan o'r ymbaratoi ehangach ar gyfer newidiadau posibl yn sgil Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, sy'n debygol o gyflwyno fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer asesu sgiliau iaith a chynllunio'r gweithlu.

## Categorïau sgiliau iaith




**4.2.37** Gwelwyd y cynnydd mwyaf eleni yn nifer y swyddi a gategoreiddwyd fel rhai lle mae'r Gymraeg yn "ddymunol" – o 38% y llynedd i 55% eleni. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod, bu gostyngiad bychan yn nifer y swyddi a gategoreiddwyd fel rhai lle mae'r Gymraeg yn "hanfodol", o 14% i 12%. Mae'r darlun cyffredinol yn dangos bod 68% o'r swyddi a arolygwyd yn ystod 2024-25 yn cynnwys dynodiad ieithyddol oedd yn cyd-fynd â'r categorïau sydd wedi eu pennu yn y safonau (h.y. naill ai hanfodol, dymunol neu angen dysgu).

**4.2.38** Y pryder, serch hynny, yw bod nifer o sefydliadau'n parhau i ddefnyddio dynodiadau ieithyddol sy'n wahanol i'r hyn a nodir yn y safonau, neu'n methu â chynnwys unrhyw gyfeiriad at sgiliau iaith o gwbl. Yn ystod 2024-25, roedd 23% o'r hysbysebion a arolygwyd yn cynnwys categori neu ddynodiad nad oedd yn unol â'r hyn a bennir gan y safonau a 5% heb grybwyll sgiliau Cymraeg o gwbl.

**4.2.39** O ystyried hefyd bod darparu gwasanaethau derbynfa a ffôn yn Gymraeg yn parhau i gael ei adrodd fel her benodol i rai sefydliadau, a phroblemau recriwtio yn cael ei nodi fel y prif rwystr, mae'n ymddangos nad yw'r gwelliant o ran asesu gofynion swydd a chategoreiddio wrth hysbysebu bob tro yn arwain at y newid yr hoffem ei weld o ran gallu y gweithlu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

**4.2.40** Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau hynny i drafod ac ystyried unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'w harferion recriwtio, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus a chydymffurfiaeth â'r safonau.

4.2.41 Mae'n bwysig yma cydnabod y duedd gynyddol o bennu lefelau sgiliau iaith ar gyfer swyddi. Mae'r Comisiynydd wedi mynegi'n glir ei chefnogaeth i'r arfer o ddefnyddio lefelau sgiliau iaith – darllen, deall, ysgrifennu a siarad – fel ffordd o roi eglurder i ymgeiswyr ynghylch yr union sgiliau sydd eu hangen i gyflawni gofynion y swydd.

4.2.42 Serch hynny, ar sail ein gwaith arolygu a'r ymholiadau a dderbyniwyd gan sefydliadau dros y flwyddyn, mae gennym bryderon bod rhai sefydliadau'n nodi lefelau iaith yn eu hysbysebion ond yn methu â chynnwys y categori ieithyddol sy'n ofynnol o dan eiriad y safonau.

4.2.43 Tynnwyd sylw at y gwendid hwn yn ein hadroddiad y llynedd, ac o ganlyniad, byddem wedi disgwyl gweld camau pendant gan sefydliadau i fynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfiaeth.

4.2.44 Mae'r diffyg ymateb digonol yn peri pryder, gan nad yw'r sefyllfa wedi gwella i'r graddau disgwyliedig. O ystyried hyn, bydd angen i'r Comisiynydd ystyried pa gamau pellach sy'n briodol eu cymryd, y tu hwnt i gymell a gosod disgwyliadau, er mwyn gorfodi newid.

4.2.45 Hyd yn oed ble roedd sefydliadau yn nodi categori wrth hysbysebu, roedd rhai arferion anghyson. Dangosodd ein harolygon fod nifer o sefydliadau yn defnyddio categori iaith diofyn er enghraifft, dynodi'r Gymraeg fel gofyniad hanfodol neu ddymunol ar gyfer pob swydd. Er y gall hyn fod yn ffordd effeithiol o gydymffurfio, mae'n ddibynnol hefyd ar drefniadau a phrosesau asesu cadarn, sydd yn sicrhau bod pob swydd unigol yn cael ei hasesu'n drylwyr o ran ei gofynion ieithyddol.

4.2.46 Cofnodwyd rhai enghreifftiau hefyd lle'r oedd hysbysebion swyddi yn cynnwys y ddau gategori – hanfodol a dymunol – ar yr un pryd: un fel dynodiad safonol ar gyfer pob swydd, a'r llall wedi'i bennu'n benodol ar gyfer y swydd dan sylw. Gall hyn achosi dryswch i ymgeiswyr ac arwain at sefyllfa lle nad yw disgwyliadau'r cyflogwr yn cael eu cyfathrebu'n glir. Mae hwn eto yn fater y tynnwyd sylw ato yn adroddiad y llynedd a lle roedd disgwyl gweld mwy o newid.

4.2.47 Mae'n hanfodol bod gofynion iaith yn cael eu cyfathrebu'n glir ac yn dryloyw i ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio. Gall cefnogaeth fod yn werthfawr wrth i sefydliadau gryfhau eu trefniadau yn y maes hwn, ond yn y pen draw, cyfrifoldeb y sefydliadau yw sicrhau bod y cyfathrebu hwn yn effeithiol ac yn gywir.

## Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 – Asesu gofynion sgiliau iaith

**4.2.48** Pasiwyd Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) gan Senedd Cymru ar 13 Mai 2025, gan dderbyn Cydsyniad Brenhinol ar 7 Gorffennaf 2025.

**4.2.49** Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cod cenedlaethol i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, yn seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar Ieithoedd (CEFR). Nod y Cod yw sicrhau dull cyson ledled Cymru o asesu sgiliau iaith, gan ddarparu eglurder i sefydliadau ac ymgeiswyr fel ei gilydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer adolygiad o'r safonau perthnasol o fewn Safonau'r Gymraeg, er mwyn penderfynu a oes angen diwygio'r gofynion sy'n ymwneud â gwella neu asesu sgiliau'r gweithlu.

**4.2.50** Bydd angen cymryd nifer o gamau cyn y daw'r Cod ac unrhyw safonau diwygiedig yn weithredol. Er enghraifft, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad ar gynnwys y Cod cyn ei gyhoeddi, ac i gynnal adolygiad ffurfiol o'r safonau cyn i unrhyw ddyletswyddau newydd ddod i rym.

**4.2.51** Er bod newidiadau i'r gofynion sy'n ymwneud â gwella neu asesu sgiliau'r gweithlu yn bosibl yn sgil y Ddeddf newydd, mae'n bwysig pwysleisio bod y safonau presennol yn dal yn weithredol. Disgwylir felly i sefydliadau barhau i gydymffurfio'n llawn ag union ofynion y safonau hyn fel y maent ar hyn o bryd.

## Sylw i sectorau blaenoriaeth – Iechyd ac addysg

**4.2.52** Mae plant a phobl ifanc, yn ogystal â'r sector iechyd a gofal, wedi'u nodi fel meysydd blaenoriaeth yng Nghynllun Strategol pum mlynedd y Comisiynydd ar gyfer 2025-2030. O ganlyniad, mae'r ddau faes hyn yn parhau i fod yn ganolog i waith y Comisiynydd. Ein nod yw parhau i gydweithio'n agos â sefydliadau yn y sectorau hyn er mwyn hyrwyddo gwelliannau parhaus yn y gwasanaethau a ddarperir i ddefnyddwyr.

**4.2.53** Yn hanesyddol, mae sefydliadau yn y sectorau iechyd ac addysg wedi perfformio'n is na sectorau eraill, gyda'n harolygon yn tynnu sylw at anghysondeb sylweddol yn y gwasanaethau a ddarperir. Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod y cynnydd cyson sydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf o ran cydymffurfiaeth, a'r ymdrechion sylweddol gan sefydliadau i ymateb i argymhellion blaenorol i wella.

**4.2.54** Yn unol â'n dull cyd-reoleiddio, rydym wedi sefydlu fforymau sectorol fel dull strwythuredig o ymgysylltu â sefydliadau, gan ganolbwyntio ar gydweithio i fynd i'r afael â heriau parhaus. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r fforymau hyn fel rhan annatod o'n dull, gan ddarparu cefnogaeth ymarferol a chydweithredol i alluogi sefydliadau i wella'n barhaus ac i sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

## Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG (Rheoliadau Rhif 7)

**4.2.55** Yn ein hadroddiad y llynedd – Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd – nodwyd bod angen i'r sector iechyd "adeiladu ar y momentwm y mae wedi llwyddo i'w greu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a sicrhau bod y cynnydd yn parhau i'r cyfnod nesaf".

**4.2.56** Mae canlyniadau arolygon 2024-25 yn dangos bod y sector wedi ymateb yn gadarnhaol i'r her honno, gyda gwelliannau sylweddol i'w gweld, gan gynnwys:

- **Cynnydd o 68% i 80%** yn nifer y dogfennau sydd ar gael yn Gymraeg ers y llynedd – sy'n gynnydd o 42 pwynt canran o gymharu â data 2021, pan gynhaliwyd yr arolygon gwirio cyntaf
- **Cynnydd o 74% i 87%** yn nifer y tudalennau gwe sydd ar gael yn Gymraeg ers y llynedd
- **Cynnydd o 64% i 72%** yn y cyfran o bostiadau cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael yn Gymraeg.

**4.2.57** Mae'n amlwg felly bod y buddsoddiad sydd wedi ei wneud o ran amser ac adnoddau, i gryfhau systemau a threfniadau yn dwyn ffrwyth ac yn arwain at welliant mewn cydymffurfiaeth.

**4.2.58** Fodd bynnag, roedd hunanasesiadau'r sefydliadau iechyd yn awgrymu bod gwasanaeth derbynfeydd yn parhau i fod yn her. Roedd pob un o'r 10 Bwrdd ac Ymddiriedolaeth iechyd wedi nodi eu lefel sicrwydd o gydymffurfiaeth yn isel neu ganolig ar gyfer eu gwasanaethau derbynfa. Mae heriau hefyd yn parhau o ran darparu gwasanaethau dros y ffôn. Noder fodd bynnag bod hyn yn adlewyrchu'r dueddiad ehangach ar draws sectorau a sefydliadau yn gyffredinol, ac nid yw'n arwydd o broblem i'r sector iechyd yn unig.

**4.2.59** Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn felly mae angen parhau i fuddsoddi, i godi ymwybyddiaeth staff, a hefyd i weld newid pellach yn arferion recriwtio a datblygu gweithlu y sefydliadau iechyd. Mae angen tystiolaeth fod ymdrechion yn cael eu gwneud i wella'r sefyllfa o ran y gwasanaethau rheng flaen yn benodol. Fel y nodir uchod, byddwn yn gwneud gwaith manylach i edrych ar ddata hysbysebu ac asesu sgiliau sefydliadau, er mwyn deall yn well beth yw'r tueddiadau a beth yw'r rhwystrau i wella'r ddarpariaeth yn hyn o beth.

## Ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg (safon 110)

**4.2.60** Rydym hefyd wedi gweld Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn ymateb yn gadarnhaol i bwysau gan y Comisiynydd i adolygu a datblygu cynlluniau gweithredol, cyraeddadwy ac ymarferol ar gyfer cynyddu eu gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg – cynlluniau 5-mlynedd sy'n ofynnol o dan Safon 110.

**4.2.61** Does dim dwywaith y gall gweithrediad llwyddiannus y cynlluniau pum mlynedd hyn gael effaith bellgyrhaeddol ar ddefnydd y Gymraeg, ac ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau clinigol yng Nghymru – gwasanaethau y bydd y rhan fwyaf ohonom yn dibynnu arnynt ryw bryd yn ein bywydau.

**4.2.62** Yn ystod 2024-25, buom yn gweithio'n agos gyda'r sector i gynnig cyngor ac arweiniad clir ynghylch ein disgwyliadau. Ein nod oedd sicrhau ymateb cadarnhaol a phwrpasol gan y sefydliadau, gan ddisgwyl iddynt roi sylw teilwng i'r cyngor a'i ystyried yn fanwl wrth asesu a mireinio eu cynlluniau ar gyfer y cyfnod nesaf.


**4.2.63** Mae cyfnod cynllunio pum mlynedd newydd bellach wedi dechrau ar gyfer Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, ac rydym yn disgwyl gweld cynnydd mesuradwy a chadarnhaol yn ystod y cyfnod hwn. Byddwn yn monitro'r cynnydd hwn yn fanwl, gan sicrhau bod y sector yn atebol am gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn eu cynlluniau.

**4.2.64** Er mwyn hwyluso hyn, rydym wedi sefydlu fforwm strategol newydd ar gyfer y sector iechyd, a gynhelir ar y cyd â thîm Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru. Bydd y fforwm hwn yn blatfform allweddol i fonitro a chyflwyno cynnydd, sicrhau atebolrwydd, rhannu arferion gorau, datblygu atebion ar y cyd, a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau clinigol.

## Prifysgolion a Cholegau Addysg Bellach (Rheoliadau Rhif 6)

**4.2.65** Nododd ein hadroddiad y llynedd bod angen i sefydliadau addysg gymryd camau pendant i wella cydymffurfiaeth mewn rhai meysydd, ac yn benodol felly gwasanaethau ffôn a ffurflenni.

**4.2.66** Gwelir bod lefelau cydymffurfiaeth mewn colegau addysg bellach wedi gwella'n gyson ers 2021-22, gyda sawl maes bellach yn dangos perfformiad sefydlog dros y ddwy flynedd ddiwethaf.




**4.2.67** Dros y bedair blynedd ddiwethaf, rhannwyd y sefydliadau Colegau Addysg Bellach yn ddau grŵp i'w gwirio bob yn ail flwyddyn[1]. Gwiriwyd y sefydliadau yn grŵp 1 yn ystod 2021-22 ac eto 2023-24 tra bod sefydliadau grŵp 2 wedi eu gwirio yn ystod 2022-2023 ac eto yn 2024-2025. Os yn edrych felly ar y data fesul grŵp o'r cyfnod y cawsant eu gwirio gyntaf a'r eildro, gellir dangos bod cynnydd wedi bod ym mhob un o'r gwasanaethau a arolygwyd ac eithrio gwefannau i sampl grŵp 2:

### Grŵp 1

| Gwasanaeth | 2021-22 | 2023-24 | Cynnydd/ Gostyngiad |
|---|---|---|---|
| Cyfryngau cymdeithasol | 73% | 98% | Cynnydd |
| Gwefennau | 49% | 76% | Cynnydd |
| Dogfennau | 60% | 83% | Cynnydd |
| Ffurflenni | 30% | 38% | Cynnydd |
| Hysbysebu swyddi | 33% | 85% | Cynnydd |

1 Gweler Atodiad 1 yr adroddiad hwn am restr o'r sefydliadau wedi'u dosbarthu fesul grŵp.

### Grŵp 2

| Gwasanaeth | 2022-23 | 2024-25 | Cynnydd/ Gostyngiad |
|---|---|---|---|
| Cyfryngau cymdeithasol | 93% | 98% | Cynnydd |
| Gwefannau | 82% | 79% | Gostyngiad |
| Dogfennau | 57% | 83% | Cynnydd |
| Ffurflenni | 29% | 57% | Cynnydd |
| Hysbysebu swyddi | 50% | 84% | Cynnydd |

**4.2.68** Mae canlyniadau 2024-25 yn dangos bod lefel cydymffurfiaeth â'r safonau sy'n ymwneud â ffurflenni yn parhau i fod yn isel iawn. Serch hynny, gwelwyd rhywfaint o gynnydd, gyda'r gyfradd cydymffurfiaeth wedi codi o 38% yn 2023-24 i 57% yn 2024-25. Mae angen rhoi sylw penodol i'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan ein bod yn dal i weld nifer o achosion lle nad yw ffurflenni ar gael yn gyfan gwbl yn Gymraeg – gyda rhai adrannau neu feysydd yn parhau i ymddangos yn Saesneg yn unig.

**4.2.69** Mae'n hanfodol felly sicrhau bod isadeiledd ffurflenni – gan gynnwys elfennau technegol megis labeli, meysydd mewnbwn a chyfarwyddiadau – hefyd ar gael yn Gymraeg. Bydd hyn yn cyfrannu at wella profiad y defnyddiwr, yn enwedig i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr sy'n defnyddio ffurflenni ar-lein mewn sefydliadau addysg.

**4.2.70** Er bod y cynnydd a nodwyd yn y data uchod yn gam i'r cyfeiriad cywir, mae'n amlwg bod gwaith pellach yn dal i'w wneud i nodi gwendidau a chryfhau cydymffurfiaeth yn gyffredinol. Bydd sefydlu a chynnal trefniadau hunan fonitro effeithiol o fewn sefydliadau yn allweddol i ysgogi newid parhaus. Byddwn yn trafod hyn gyda'r sector yn ystod y misoedd nesaf, ac yn gofyn am adroddiadau ar gynnydd. Os na fyddwn yn hyderus bod cynnydd digonol yn cael ei wneud, bydd angen i ni ystyried camau pellach i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

**4.2.71** Fel yn achos y Colegau Addysg Bellach, rhannwyd y sefydliadau Addysg Uwch yn ddau grŵp i'w gwirio bob yn ail flwyddyn. Gwiriwyd y sefydliadau yn grŵp 1 yn ystod 2021-22 ac eto 2023-24 tra bod sefydliadau grŵp 2 wedi eu gwirio yn ystod 2022-2023 ac eto yn 2024-2025. Mae'r tablau isod yn dangos canlyniadau arolygon fesul grŵp:


### Grŵp 1

| Gwasanaeth | 2021-22 | 2023-24 | Cynnydd/ Gostyngiad |
|---|---|---|---|
| Cyfryngau cymdeithasol | 61% | 97% | Cynnydd |
| Gwefennau | 41% | 100% | Cynnydd |
| Dogfennau | 75% | 94% | Cynnydd |
| Ffurflenni | 50% | 44% | Gostyngiad |
| Hysbysebu swyddi | 88% | 96% | Cynnydd |

### Grŵp 2

| Gwasanaeth | 2022-23 | 2024-25 | Cynnydd/ Gostyngiad |
|---|---|---|---|
| Cyfryngau cymdeithasol | 88% | 97% | Cynnydd |
| Gwefannau | 64% | 91% | Cynnydd |
| Dogfennau | 62.5% | 87% | Cynnydd |
| Ffurflenni | 29% | 60% | Cynnydd |
| Hysbysebu swyddi | 76% | 78% | Cynnydd |

**4.2.72** Mae data'r arolygon yn dangos bod lefel cydymffurfiaeth y prifysgolion ar draws gwasanaethau penodol wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, mae'n galonogol nodi bod cynnydd wedi'i wneud ym mhob maes gwasanaeth – ac eithrio ffurflenni – gan y sefydliadau hynny yn grŵp 1.



4.2.73 Yn debyg i'r sefyllfa mewn colegau, mae ffurflenni'n parhau i fod yn faes heriol, gyda lefelau cydymffurfiaeth yn isel o gymharu â safonau eraill. Mae angen gwaith datblygu sylweddol i wella profiad y defnyddiwr, yn enwedig o ran ffurflenni ar-lein. Byddwn yn rhoi sylw penodol i'r mater hwn yn ein cyfarfodydd gyda'r sector yn ystod y flwyddyn, gyda'r nod o ysgogi newid cadarnhaol.

4.2.74 Mae hysbysebion swyddi yn faes arall lle mae perfformiad yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau yn 2024-25. Er hynny, mae'r data'n dangos cynnydd: cododd cyfran yr hysbysebion swyddi a gyhoeddwyd yn Gymraeg gan sefydliadau grŵp 1 o 88% i 96%, a chan sefydliadau grŵp 2 o 76% i 78%.

4.2.75 Un duedd sydd wedi dod i'r amlwg yw'r effaith mae systemau digidol, sydd yn cael eu defnyddio gan sefydliadau i gysoni ac awtomeiddio prosesau recriwtio, yn ei gael ar gydymffurfiaeth. Yn benodol, mae rhai rhannau o hysbysebion – megis penawdau – yn ymddangos yn Saesneg yn unig ar wefannau sefydliadau. Mae hyn yn adlewyrchu problem debyg i'r un a nodwyd gyda ffurflenni, ac yn golygu nad yw'r sefydliadau'n cydymffurfio'n llawn â gofynion y safonau.

## Sefydliadau sydd yn gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg (Deddf yr Iaith Gymraeg 1993)

4.2.76 Mae'r Comisiynydd hefyd yn monitro gwasanaethau'r sefydliadau hynny sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

4.2.77 Mae cynnwys Cynllun Iaith pob sefydliad yn amrywio, gyda'r ymrwymiadau o ran darpariaeth Gymraeg yn wahanol o un sefydliad i'r llall. O ganlyniad, nid yw data'r arolygon hyn o reidrwydd yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r ymrwymiadau penodol o fewn y cynlluniau, ond yn hytrach yn adlewyrchu profiad y defnyddiwr wrth geisio cyrchu gwasanaethau Cymraeg gan y sefydliadau hyn.

4.2.78 Mae'r tabl isod yn cyflwyno canlyniadau arolygon gwirio a gynhaliwyd yn ystod 2024-25 ar sampl o sefydliadau sydd â Chynllun Iaith Gymraeg. Ceir rhestr lawn o'r sefydliadau perthnasol ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

| Arolwg | Canlyniad 2021-22 | Canlyniad 2022-23 | Canlyniad 2023-24 | Canlyniad 2024-25 | Newid ers 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffôn | 47% | 42% | 38% | 36% | Gostyngiad |
| Gohebiaeth | 62% | 60% | 58% | 72% | Gwelliant |
| Cyfryngau cymdeithasol | 30% | 23% | 20% | 20% | Gostyngiad |
| Gwefannau | 52% | 37% | 54% | 50% | Gwelliant |

| Arolwg | Canlyniad 2021-22 | Canlyniad 2022-23 | Canlyniad 2023-24 | Canlyniad 2024-25 | Newid ers 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| Hysbysebu swyddi | 5% | 0% | 20% | 26% | Gostyngiad |
| Dogfennau | 44% | 53% | 61% | 41% | Gostyngiad |
| Ffurflenni | 58% | 54% | 65% | 52% | Gostyngiad |
| Hunaniaeth gorfforaethol | 59% | 37% | 64% | 41% | Gostyngiad |

**4.2.79** Dros y pedair blynedd ddiwethaf, gwelwyd cynnydd cyson yn nifer y sefydliadau a ymatebodd i ohebiaeth yn Gymraeg. Dengys canlyniadau arolygon 2024-25 fod 72% o sefydliadau bellach yn cydymffurfio â'r gofynion hyn – cynnydd o 10% ers dechrau'r cyfnod arolygu bedair blynedd yn ôl.

**4.2.80** Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer yr hysbysebion swyddi a wiriwyd oedd ar gael yn Gymraeg. Mae hyn, o bosib, yn adlewyrchu'r gwelliannau a wnaed i wasanaeth recriwtio'r gwasanaeth sifil ar wefan Civil Service Jobs dros y cyfnod hwn. Mae'r gwelliannau i'r wefan wedi galluogi sefydliadau sy'n ei defnyddio i hysbysebu swyddi'n ddwyieithog.

**4.2.81** Bu trafodaethau rhwng y Swyddfa'r Cabinet, y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a'r Comisiynydd i sicrhau bod y wefan newydd yn diwallu anghenion sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg ac sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg. Er gwaethaf y cynnydd, cydnabyddir bod lle i wella ymhellach, ac mae prosiect trawsnewid ar y gweill i greu gwefan newydd. Bydd y wefan honno'n cynnig profiad gwell i unigolion sy'n dymuno cyflwyno eu cais am swydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

**4.2.82** Er bod cynnydd wedi'i weld o ran hysbysebion swyddi, nodir dirywiad cyffredinol yn lefel perfformiad mewn nifer o'r gwasanaethau eraill a aseswyd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y sefydliadau a gafodd eu cynnwys yn yr arolygon wedi'u rhannu'n ddau grŵp: cafodd sefydliadau Grŵp 1 eu gwirio yn 2021-22 ac eto yn 2023-24, tra cafodd sefydliadau Grŵp 2 eu gwirio yn 2022-23 ac eto yn 2024-25.

**4.2.83** Wrth edrych ar y data fesul grŵp – gan gymharu'r cyfnod arolygu cyntaf â'r ail – gellir gweld bod cynnydd wedi'i wneud mewn nifer o'r gwasanaethau a aseswyd.

### Grŵp 1

| Arolwg | Canlyniad 2021-22 | Canlyniad 2023-24 | Newidd |
|---|---|---|---|
| Ffôn | 47% | 38% | Gostyngiad |
| Gohebiaeth | 62% | 58% | Gostyngiad |
| Cyfryngau cymdeithasol | 30% | 20% | Gostyngiad |
| Gwefannau | 52% | 54% | Gwelliant |
| Hysbysebu swyddi | 5% | 20% | Gwelliant |
| Dogfennau | 44% | 61% | Gwelliant |
| Ffurflenni | 58% | 65% | Gwelliant |
| Hunaniaeth gorfforaethol | 59% | 64% | Gwelliant |

### Grŵp 2

| Arolwg | Canlyniad 2022-23 | Canlyniad 2024-25 | Newidd |
|---|---|---|---|
| Ffôn | 42% | 36% | Gostyngiad |
| Gohebiaeth | 60% | 72% | Gwelliant |
| Cyfryngau cymdeithasol | 23% | 20% | Gostyngiad |
| Gwefannau | 37% | 50% | Gwelliant |
| Hysbysebu swyddi | 0% | 26% | Gwelliant |
| Dogfennau | 53% | 41% | Gostyngiad |
| Ffurflenni | 54% | 52% | Gostyngiad |
| Hunaniaeth gorfforaethol | 37% | 41% | Gwelliant |

**4.2.84** Er nad yw llawer o gynlluniau iaith yn cyfeirio'n benodol at negeseuon cyfryngau cymdeithasol, rydym wedi parhau i gynnwys y maes hwn yn ein harolygon gwirio blynyddol. Gwneir hyn er mwyn sicrhau cysondeb â'r hyn sy'n cael ei arolygu o dan safonau'r Gymraeg, lle mae cyfathrebu digidol yn rhan annatod o ddarpariaeth gwasanaethau.

**4.2.85** Mae'n peri pryder bod dirywiad cyffredinol wedi bod yn nifer y negeseuon cyfryngau cymdeithasol a gyhoeddir yn Gymraeg gan sefydliadau sydd wedi ymrwymo i'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Yn 2021-22, roedd 30% o'r negeseuon a wiriwyd ar gyfryngau cymdeithasol ar gael yn Gymraeg. Erbyn 2024-25, mae'r ganran hon wedi gostwng i 20%.

**4.2.86** Rydym yn ymwybodol bod defnydd sefydliadau o gyfryngau cymdeithasol wedi datblygu'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac mae arferion defnyddwyr hefyd wedi newid, gyda mwy o blatfformau amrywiol bellach yn cael eu defnyddio. Fel y nodwyd eisoes, rydym yn bwriadu cynnal arolygon gwirio manylach o gyfryngau cymdeithasol yn ystod 2025-26, a fydd yn cynnwys sampl o sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith.

**4.2.87** Yn debyg i'r sefyllfa mewn sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, mae darparu gwasanaethau ffôn yn Gymraeg yn parhau i fod yn her i sefydliadau sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith. Yn bennaf, mae hyn oherwydd bod nifer o'r sefydliadau hyn wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, gan olygu bod recriwtio staff â sgiliau Cymraeg yn fwy heriol.

**4.2.88** Yn ogystal, mae'r ymrwymiadau o fewn cynlluniau iaith yn amrywio'n sylweddol o ran gwasanaethau ffôn – i'r graddau nad yw pob cynllun yn cynnwys ymrwymiad penodol i ddarparu gwasanaeth ffôn yn Gymraeg.

**4.2.89** Mae hwn yn faes y bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw penodol iddo fel rhan o'r gwaith o ddiwygio cynlluniau iaith yn ystod y cyfnod nesaf. Wrth i sefydliadau ddiwygio eu cynlluniau, byddwn yn trafod yr angen i gynnwys ymrwymiadau cryfach o fewn eu cynlluniau newydd i sicrhau bod gwasanaethau ffôn yn cael eu datblygu lle nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Bydd hyn nid yn unig yn ymateb i anghenion presennol defnyddwyr, ond hefyd yn helpu i baratoi sefydliadau ar gyfer gweithredu gofynion newydd sy'n debygol o gael eu gosod arnynt o dan Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol.

**4.2.90** O ran gwefannau, mae nifer o adrannau Llywodraeth y DU a chyrff y Goron yn defnyddio'r wefan GOV.UK i gyhoeddi gwybodaeth. Mae'r cyfrifoldeb dros y wefan hon yn nwylo Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS), ac mae sawl sefydliad wedi nodi bod sicrhau cynnwys Cymraeg yn hygyrch ac yn gyfartal â'r cynnwys Saesneg yn parhau i fod yn her sylweddol.

**4.2.91** Nodwyd bod y sefydliadau hynny sydd â mwy o reolaeth dros eu cynnwys ar GOV.UK – neu'r rhai hynny sydd â'u gwefan eu hunain – yn tueddu i berfformio'n well. Yn wir, roedd chwe sefydliad yn cydymffurfio â 84% o'r gofynion, gan ddangos bod rheolaeth leol dros gynnwys digidol yn gallu cyfrannu'n sylweddol at well cydymffurfiaeth.

**4.2.92** Mae Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS), sy'n gyfrifol am GOV.UK, yn rhan o Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, sydd ar hyn o bryd yn datblygu cynllun iaith. Bydd y Comisiynydd yn parhau i ymgysylltu â'r adrannau perthnasol o fewn Llywodraeth y DU yn ystod 2025-26, gyda'r nod o fynd i'r afael ag anghysondebau presennol o ran cydymffurfiaeth.

**4.2.93** Yn gyffredinol, mae sefydliadau sydd â swyddog neu dîm penodol sy'n gyfrifol am y Gymraeg, neu'r rhai hynny sydd wedi diweddaru eu cynllun iaith yn ddiweddar, yn perfformio'n sylweddol well na'r sefydliadau hynny sydd heb swyddog penodol a sydd â chynllun iaith sydd wedi dyddio. Mae hyn yn tanlinellu gwerth arweinyddiaeth glir a chynllunio strategol wrth sicrhau darpariaeth Gymraeg effeithiol.

**4.2.94** Mae'n glir felly bod angen i sefydliadau fynd ati i ddiweddaru a diwygio eu cynlluniau iaith er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gwasanaethau cyfredol a ddarperir. O ganlyniad, mae gan y Comisiynydd gynllun gwaith ar gyfer 2025-26 sy'n nodi'r sefydliadau sydd o flaenoriaeth uchel i gydweithio â hwy er mwyn paratoi cynlluniau iaith newydd neu ddiwygio ac adnewyddu cynlluniau iaith cyfredol. Bydd rhain yn cynnwys:

- Adran Busnes a Masnach (DBT)
- Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ)
- Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT)
- Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (DHSC)
- Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (NS&I)
- UCAS
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru (HMPPS)
- Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- Cyllid a Thollau EF
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Swyddfa'r Cabinet
- Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

## Arolwg o wasanaethau Cymraeg i hawlwyr budd-daliadau

**4.2.95** Arweiniodd pandemig COVID-19 at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn y DU am resymau economaidd ac iechyd. Roedd y Comisiynydd yn awyddus i ddeall i ba raddau yr oedd y gwasanaethau hynny ar gael yn y Gymraeg ac a oeddent yn ddigon hygyrch i siaradwyr. O ganlyniad, cynhaliwyd archwiliad i wasanaeth y Credyd Cynhwysol, sef y prif fudd-dal a weinyddir gan Adran Gwaith a Phensiynau y DU i bobl yng Nghymru.

**4.2.96** Roedd yr adolygiad yn archwilio argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i hawlwyr budd-daliadau yng Nghymru gan ganolbwyntio ar y gwasanaeth Credyd Cynhwysol fel y prif fudd-dal i hawlwyr gan Adran Gwaith a Phensiynau y DU. Gwnaed hyn drwy holiadur ar-lein â chynnal cyfweliadau un-i-un â defnyddwyr gwasanaeth.

**4.2.97** Casglwyd bod y gwasanaeth Credyd Cynhwysol a ddarperir gan Adran Gwaith a Phensiynau ar gael yn Gymraeg a bod safon y gwasanaeth Cymraeg, ar y cyfan, yn dda. Cesglir hynny ar y sail bod profiad y rhan helaeth o'r defnyddwyr gwasanaeth fu'n rhan o'r astudiaeth, wedi bod yn gadarnhaol.

**4.2.98** Serch y ddarpariaeth bresennol, mae'n amlwg bod ansicrwydd ymhlith defnyddwyr gwasanaeth ynghylch defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg. Nodwyd pryderon penodol am oedi wrth ddefnyddio'r gwasanaeth yn Gymraeg, anhawster i ddod o hyd i wybodaeth yn y Gymraeg, a phryderon ynghylch deallusrwydd y derminoleg a'r iaith ffurfiol a ddefnyddir.

**4.2.99** Casglwyd hefyd, er bod gwasanaethau Credyd Cynhwysol ar gael yn Gymraeg, nad ydynt yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol. Mae defnyddwyr wedi nodi anawsterau wrth geisio dod o hyd i wybodaeth Gymraeg ar wefan GOV.UK, gan arwain at ddefnyddio'r fersiynau Saesneg o'r gwasanaethau. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i wneud y Gymraeg yn fwy gweledol ac i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol, yn hytrach na disgwyl i'r defnyddiwr eu ceisio'n benodol.

**4.2.100** O ran y gwasanaethau a ddarperir yn y canolfannau gwaith, nodwyd bod gan Adran Gwaith a Phensiynau drefniadau cadarn ar waith i sicrhau darpariaeth gwasanaeth gan anogwyr gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae cyfrifon ar-lein hawlwyr yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg, gan gynnwys y gallu i gofnodi a chyfathrebu yn Gymraeg drwy'r dyddlyfr ar-lein.

**4.2.101** Fodd bynnag, nodwyd rhai bylchau yn y ddarpariaeth, yn enwedig o ran sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu paru gydag anogwyr gwaith Cymraeg o ddechrau'r broses, a bod y gwasanaeth hwnnw'n cael ei gynnal yn gyson drwy gydol eu hymwneud â'r gwasanaeth.

**4.2.102** Cynhaliwyd ymchwil ben desg i'r wybodaeth a ddarperir ar wefannau awdurdodau lleol sy'n cyfeirio pobl at wasanaethau budd-daliadau. Dangosodd yr ymchwil fod 95% o awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth am gymorth a chyngor ynghylch yr argyfwng costau byw yn llawn yn Gymraeg ar eu gwefannau. Serch hynny, nodwyd bod lle i wella profiad defnyddwyr y Gymraeg drwy sicrhau bod dolenni o wefannau awdurdodau lleol yn arwain yn uniongyrchol at y tudalennau perthnasol yn Gymraeg ar GOV.UK.

**4.2.103** Ar sail y canfyddiadau, mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno cyfres o argymhellion i Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU ac i Wasanaethau Digidol y Llywodraeth (GDS), gyda'r nod o wella'r gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg sy'n ceisio cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU. Ymhlith yr argymhellion hyn mae'r canlynol:

- Sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn hawdd eu deall ac yn hygyrch
- Hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg yn fwy amlwg yn y canolfannau gwaith
- Adolygu sgiliau ieithyddol staff ar draws adrannau perthnasol
- Sicrhau bod digon o gapasiti ar gael i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn gyson ac effeithiol.

**4.2.104** Bydd y Comisiynydd yn parhau i drafod gyda'r adrannau perthnasol yn ystod 2025-26, er mwyn monitro'r ymateb i'r argymhellion hyn a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i wella'r ddarpariaeth.

### Prif gasgliadau ac argymhellion

**Mae cydymffurfiaeth â dyletswyddau iaith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn parhau i wella'n raddol ac yn gyson. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn araf mewn rhai meysydd allweddol, ac yn parhau i fod yn annigonol i sicrhau profiad cyfartal i siaradwyr Cymraeg.**

**Mae angen i sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith baratoi'n rhagweithiol ar gyfer pontio i gyfundrefn Safonau'r Gymraeg, gan gryfhau eu hymrwymiadau a'u trefniadau presennol.**

**Gwasanaethau rheng flaen:** Rhaid i sefydliadau sicrhau bod gwasanaethau megis y dderbynfa a'r gwasanaeth ffôn ar gael ac yn hygyrch yn Gymraeg, gan osod sylfaen gadarn ar gyfer cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

**Ffurflenni mewn addysg:** Rhaid i sefydliadau addysg sicrhau bod pob ffurflen ar gael yn llawn yn Gymraeg, gan wella profiad y defnyddiwr a bodloni disgwyliadau myfyrwyr a darpar fyfyrwyr.

**Hysbysebion swyddi:** Rhaid i sefydliadau sicrhau bod hysbysebion swyddi yn nodi'r gofynion ieithyddol yn glir ac yn unol â'r categorïau a'r disgwyliadau a bennir gan Safonau'r Gymraeg, gan osod seiliau cadarn ar gyfer pontio i unrhyw ofynion newydd.

**Cyfryngau cymdeithasol:** Rhaid i sefydliadau sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan adlewyrchu egwyddorion craidd y safonau.

**Adolygu cynlluniau iaith:** Rhaid i sefydliadau sydd â chynlluniau iaith sydd wedi dyddio fynd ati i'w hadolygu a'u diwygio, gan gynnwys ymrwymiadau clir i ddatblygu a darparu gwasanaethau rheng flaen yn Gymraeg, a chydweddu â disgwyliadau'r gyfundrefn safonau.

## 4.3 Deilliant 2: Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt

### Arolwg siaradwyr Cymraeg 2024

**4.3.1** Rydym yn comisiynu arolwg blynyddol i gasglu barn siaradwyr Cymraeg am wasanaethau Cymraeg a'r cyfleoedd sydd ganddynt i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus.

**4.3.2** O ran canfyddiad cyffredinol yr ymatebwyr o wasanaethau Cymraeg a ddarperir gan sefydliadau cyhoeddus, roedd 75% yn cytuno bod y gwasanaethau hyn yn gwella. Yn ogystal, roeddent o'r farn bod sefydliadau'n gofyn yn gyson ym mha iaith y byddent yn dymuno cyfathrebu – canfyddiad sy'n gyson â chanlyniadau'r arolwg yn y flwyddyn flaenorol.

**4.3.3** Yn ogystal, nododd 70% o'r ymatebwyr eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw sefydliadau'n ei gwneud yn glir bod y gwasanaethau hynny ar gael – cynnydd o 5 pwynt canran o gymharu â 65% yn yr arolwg blaenorol.

**4.3.4** Yn gadarnhaol, roedd 79% o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod fel arfer yn gallu defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r gyfradd hon wedi parhau'n gyson ers yr arolwg blaenorol.

**4.3.5** Er bod y canrannau uchod yn gymharol uchel, mae'r darlun yn fwy cymhleth wrth ystyried yr iaith y mae ymatebwyr yn ei ffafrio'n ymarferol. Wrth drafod eu dewis iaith wrth gyfathrebu â sefydliadau cyhoeddus, nododd 17% o'r ymatebwyr mai'r Gymraeg yw'r iaith y maent yn ei ffafrio, 71% yn ffafrio'r Saesneg, a 12% yn amrywio eu dewis yn dibynnu ar y cyd-destun. Fodd bynnag, ymhlith y rhai a nododd eu hunain yn siaradwyr "rhugl", mae'r ganran sy'n ffafrio defnyddio'r Gymraeg yn codi i 34%.

**4.3.6** Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno'r canrannau sy'n dangos pa iaith y mae ymatebwyr yn ei ffafrio wrth ddefnyddio gwasanaethau penodol.

| Arolwg | Cymraeg bob tro | Cymraeg gan amlaf | Cymraeg a Saesneg yn halaf | Saesneg gan amlaf | Saesneg bob tro |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffôn | 8% | 10% | 21% | 33% | 28% |
| Wyneb yn wyneb | 10% | 11% | 26% | 31% | 22% |
| Ysgrifenedig | 4% | 4% | 23% | 35% | 35% |
| Darllen gwybodaeth | 3% | 7% | 33% | 32% | 24% |
| Cyfryngau cymdeithasol | 4% | 5% | 21% | 33% | 31% |

**4.3.7** Mae'r arolwg yn tynnu sylw at y ffaith bod y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis iaith defnyddwyr yn gallu bod yn gymhleth ac yn amrywiol. Ymhlith y ffactorau a nodwyd oedd:

- Pwnc y drafodaeth neu'r defnydd o eirfa dechnegol
- Hyder personol a'r teimlad o fod yn gyfforddus wrth ddefnyddio'r Gymraeg
- Argaeledd siaradwr Cymraeg
- A yw'r person arall yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

**4.3.8** Mae hyn yn amlygu bod gwaith sylweddol yn parhau i fod i newid arferion iaith pobl ac i'w hannog i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt.

## Dylanwadu ar ddefnydd iaith unigolion wrth ymwneud â gwasanaethau

**4.3.9** Er bod sefydliadau'n tueddu i gydymffurfio'n dda â'r safonau sy'n ymwneud â deunydd ysgrifenedig – megis gohebiaeth, dogfennau, tudalennau gwe a ffurflenni – mae gwendid yn parhau o ran cydymffurfio â'r safonau sy'n mynnu cynnwys datganiadau penodol. Mae'r datganiadau hyn yn rhoi gwybod bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg neu'n croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg.

**4.3.10** Pwrpas y safonau hyn yw ysgogi newid ymddygiad drwy gymell ac annog defnydd o wasanaethau Cymraeg. Mae'n hanfodol felly i sefydliadau gydnabod gwerth a phwysigrwydd y safonau hyn wrth ddylanwadu ar arferion a dewisiadau ieithyddol siaradwyr Cymraeg.

**4.3.11** Yn 2024-25, gostyngodd y gyfradd gydymffurfio â'r safon hon i 50%, sy'n cynrychioli dirywiad o 23.53% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**4.3.12** Ceir hefyd safon sy'n ymwneud â dogfennau a ffurflenni, sy'n gosod dyletswydd ar sefydliadau i gynnwys datganiad ar y fersiwn Saesneg bod fersiwn Gymraeg ar gael. O blith yr holl ddogfennau a samplwyd (ac eithrio'r rhai o dan Reoliadau Rhif 7, lle mae'r gofynion ychydig yn wahanol), dim ond 41% oedd yn cynnwys y datganiad angenrheidiol.

**4.3.13** Yn ein hadroddiad y llynedd, fe wnaethom alw ar sefydliadau i fynd i'r afael â'r agwedd hon ar hyrwyddo ac annog defnydd o wasanaethau Cymraeg. Mae'n destun pryder, felly, bod data eleni yn dangos dirywiad pellach yn y gyfradd gydymffurfio â'r gofynion hyn. Nid yw'r sefyllfa bresennol yn dderbyniol, yn enwedig o ystyried bod y safonau hyn wedi bod mewn grym ers cryn amser.

**4.3.14** Mae'n hanfodol i sefydliadau gymryd camau pendant i wella cydymffurfiaeth yn y maes hwn, ac i sicrhau bod staff ar draws y sefydliad yn ymwybodol o bwysigrwydd y datganiadau hyn wrth hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

**4.3.15** Byddwn yn cynnal adolygiad pellach yn 2025-26, gan ddefnyddio sampl o ddeunyddiau gan sefydliadau er mwyn asesu cydymffurfiaeth. Yn yr achosion lle y canfyddir methiant i gydymffurfio, bydd y Comisiynydd yn ystyried i ba raddau y dylid arfer ei phwerau gorfodi, gan gynnwys cynnal ymchwiliad statudol os bydd angen.

### Arfer da

Ymatebodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhagweithiol i ganlyniadau arolygon blynyddol y Comisiynydd y llynedd, a oedd yn dangos nad oedd pob dogfen a ffurflen ar eu gwefan yn cydymffurfio â'r gofynion.

Roedd monitro pob dogfen a ffurflen yn unigol yn heriol ac yn llafurus. Fodd bynnag, gan fod gan y Cyngor rwymedigaethau deddfwriaethol i'w cyflawni, aethant ati i chwilio am ddatrysiad effeithiol. Mewn cydweithrediad â Swyddog Gwasanaethau Digidol y Cyngor, datblygwyd rhaglen a allai 'sganio'r wefan i adnabod dogfennau a ffurflenni PDF, ac yna mewnosod y datganiad angenrheidiol yn awtomatig.

Cafodd yr holl ddogfennau a ffurflenni PDF presennol eu diweddaru gyda'r datganiad gofynnol pan redwyd y rhaglen. Cafodd unrhyw fersiynau hŷn eu hadolygu a'u dileu os nad oeddent yn gyfredol neu os oedd fersiwn wedi'i diweddaru ar gael.

Mae Adran Gwasanaethau Digidol y Cyngor bellach yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg, gan weithredu fel porthorion i'r holl wybodaeth a gyflwynir i'w chyhoeddi ar y wefan. Mae'r dull hwn yn sicrhau gwell rheolaeth dros gydymffurfiaeth a chysondeb iaith ar draws cynnwys digidol y Cyngor.

**4.3.16** Y tu hwnt i'r safonau sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gynnwys datganiadau ar ddogfennau, ffurflenni ac eitemau megis negeseuon e-bost, mae pob set o Reoliadau hefyd yn cynnwys safonau penodol sy'n mynnu bod sefydliadau'n hybu a hyrwyddo unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddynt.

**4.3.17** Wrth ymateb i'r holiaduron hunanasesu, nododd 61% o sefydliadau lefel uchel o sicrwydd eu bod yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Fodd bynnag, mae hyn yn awgrymu nad yw 39% o sefydliadau yn hyderus eu bod yn bodloni'r ddyletswydd i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.

**4.3.18** O ganlyniad, byddwn yn rhoi sylw penodol i'r maes hwn yn ystod 2025-26, drwy weithredu cynllun gwaith hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori â sefydliadau ynglŷn â sut y gall y Comisiynydd eu cefnogi ymhellach i ddatblygu a hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg – boed hynny drwy gyngor, arweiniad neu adnoddau ymarferol.

## Prosiect hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg

**4.3.19** Eleni, fe wnaethon ni sefydlu prosiect i gydweithio â sampl o sefydliadau cyhoeddus ar draws sectorau amrywiol, gyda'r nod o wella'r ffordd y maen nhw'n hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg. Canolbwyntiodd y prosiect ar lunio a gweithredu cynlluniau hyrwyddo gwasanaethau.

**4.3.20** Dangosodd y prosiect fod rhai sefydliadau wedi llwyddo i roi eu cynlluniau ar waith yn effeithiol, ac wedi gallu mesur cynnydd ac effaith y gwaith. Gwelwyd cynnydd amlwg yn y defnydd o'r gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddwyd fel rhan o'r prosiect. Mae hyn yn dangos bod ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg yn gallu bod yn effeithiol pan fydd sefydliadau'n gweithredu strategaethau clir a phriodol.

### Canfyddiadau cyffredinol y prosiect

**4.3.21** Mae'n amlwg bod rhai sefydliadau yn wynebu heriau wrth geisio hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg. Un o'r prif anawsterau a nodwyd yw diffyg dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng:

- Hyrwyddo'r ffaith bod gwasanaeth ar gael yn Gymraeg, a
- Hyrwyddo'r gwasanaeth ei hun drwy gyfrwng y Gymraeg.

**4.3.22** Yn ogystal, mae diffyg adnoddau a staffio wedi bod yn rhwystr, gyda rhai sefydliadau'n nodi bod angen blaenoriaethu gwaith arall dros hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg.

**4.3.23** O ddadansoddi'r cynlluniau hyrwyddo, mae'n amlwg bod angen cefnogaeth ychwanegol i alluogi sefydliadau i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg yn effeithiol. Mae'n hanfodol bod sefydliadau:

- Yn ymwybodol o, ac yn deall theorïau a dulliau newid ymddygiad
- Yn cael mynediad at adnoddau ymarferol a pherthnasol i gefnogi eu hymdrechion.

**4.3.24** Yn y pen draw, rhaid i sefydliadau gymryd camau bwriadol i annog defnydd parhaus o wasanaethau Cymraeg, a blaenoriaethu'r gwaith hwn fel rhan annatod o'u strategaethau hyrwyddo ehangach.

**4.3.25** Fel y nodwyd wrth drafod canlyniadau'r arolwg defnyddwyr uchod, mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn gymharol isel.

4.3.26 Mae'n debygol bod nifer sylweddol o bobl bellach wedi arfer defnyddio'r Saesneg wrth ddelio â gwasanaethau cyhoeddus – nid o reidrwydd oherwydd dewis, ond oherwydd diffyg ymwybyddiaeth bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.


4.3.27 Er bod sefydliadau'n gwneud camau breision i wella'r gwasanaethau Cymraeg a gynigir, mae ganddynt hefyd rôl allweddol i'w chwarae wrth:

- Amlygu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Gwneud y broses o ddewis y Gymraeg wrth gyfathrebu â nhw yn un hawdd.

4.3.28 Mae'r Comisiynydd hefyd yn cydnabod bod ganddi rol allweddol wrth hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg. Er mwyn parhau i annog a chefnogi sefydliadau i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg yn effeithiol yn ystod 2025-26, bydd y Comisiynydd yn datblygu adran ar ei wefan a fydd yn lwyfan i sefydliadau i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg. Yn ogystal, bydd y Comisiynydd yn adolygu'r ddogfen gyngor 'Hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg' gyfredol ac yn creu adnoddau pellach i helpu sefydliadau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

### Cynllun hyrwyddo tudalennau Cymraeg gwefan bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

4.3.29 Fel man cychwyn, cafodd newid cymharol fach ei wneud i hafan y wefan: ychwanegwyd neges glir yn nodi bod y wefan ar gael yn Gymraeg (fel y dangosir isod), ynghyd â chyfarwyddiadau clir ar sut i newid yr iaith i'r Gymraeg.





4.3.30 Cofnodwyd cynnydd o 25.8% yn nifer yr ymwelwyr â gwefan Gymraeg y Bwrdd Iechyd. Yn ei adroddiad, nododd y Bwrdd ei bod yn "annhebygol y byddai cynnydd fel hwn wedi'i weld am unrhyw reswm arall heblaw am y neges uchod".

**4.3.31** Yn ogystal â'r cynnig rhagweithiol, treialodd y Bwrdd Iechyd fodel dewis gorfodedig, gan greu sefyllfa lle roedd yn rhaid i ddefnyddwyr ddewis iaith cyn parhau i ddefnyddio'r wefan. Roedd hyn yn sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o'r opsiwn i ddefnyddio'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf.

**4.3.32** Cafodd y dull hwn ei weithredu ar dudalennau penodol, lle roedd angen i'r defnyddiwr ddewis rhwng Cymraeg a Saesneg cyn gweld y cynnwys. Ar gyfer y rhan hon o'r prosiect, bu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM) yn cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel rhan o ymrwymiad y ddau sefydliad i ddarparu e-wasanaethau o safon uchel.

**4.3.33** Dyma enghraifft o'r neges oedd yn ymddangos ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfnod treialu.




### Cynllun hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg Dŵr Cymru

**4.3.34** Bwriad Dŵr Cymru oedd hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg a gynigir ganddynt, gan annog cwsmeriaid i gyfathrebu yn Gymraeg drwy alwadau ffôn, e-byst, llythyrau a sgwrsio ar-lein. Nod yr ymgyrch oedd gweld cynnydd yn y defnydd o'r gwasanaethau hyn.


**4.3.35** Dros gyfnod o rai misoedd, cynhaliwyd ymgyrch hyrwyddo aml-sianel, a oedd yn cynnwys:

- Hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol
- Straeon yn y cyfryngau
- Hysbysebu ar wefan Golwg360.

**4.3.36** Canolbwyntiwyd yr holl weithgarwch ar annog cwsmeriaid i gysylltu â Dŵr Cymru ac i gofrestru i dderbyn gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn dilyn yr ymgyrch, cofnodwyd cynnydd yn nifer y cwsmeriaid a gofrestrodd i dderbyn gohebiaeth Gymraeg ganddynt.

**4.3.37** Isod ceir enghreifftiau syml ond effeithiol a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymgyrch i annog defnyddwyr i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg.




### Prif gasgliadau ac argymhellion

**Mae'r dystiolaeth yn dangos bod nifer o sefydliadau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r her o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy ddulliau arloesol ac effeithiol. Mae hyn yn arwydd o newid diwylliant cadarnhaol ac ymrwymiad cynyddol i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o brofiad y defnyddiwr.**

**Fodd bynnag, er gwaethaf yr enghreifftiau cadarnhaol hyn, mae'n amlwg bod gwaith sylweddol yn dal i'w wneud. Nid yw pob sefydliad yn rhoi'r sylw dyledus i'w dyletswyddau statudol i roi gwybod bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg, nac i annog defnydd gweithredol ohonynt.**

**Sicrhau gwelededd a hygyrchedd gwasanaethau Cymraeg:** Dylai pob sefydliad sicrhau bod eu gwasanaethau Cymraeg yr un mor hygyrch, deniadol ac effeithlon â'r rhai Saesneg – gan feithrin hyder ymhlith defnyddwyr ac annog eu defnydd rheolaidd.

**Integreiddio i strategaethau cyfathrebu:** Dylai hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg fod yn rhan annatod o strategaethau cyfathrebu a gwasanaeth cwsmeriaid pob sefydliad, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chyfleu'n gadarnhaol, yn weledol ac yn weithredol ym mhob pwynt cyswllt â'r cyhoedd.

## 4.4 Deilliant 3: Sefydliadau'n rhoi sylw daladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg

**4.4.1** Mae'r safonau llunio polisi yn gonglfaen i'n fframwaith reoleiddio, ac mae ein disgwyliadau o sefydliadau sy'n gorfod cydymffurfio â'r safonau hyn yn glir – dylid mynd ati i wneud ymdrech gydwybodol i ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

**4.4.2** Pan gânt eu llunio'n effeithiol, mae asesiadau effaith ar y Gymraeg yn fwy na dull o ddangos cydymffurfiaeth yn unig. Maent yn arf strategol sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn ganolog ac yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â swyddogaethau cyhoeddus sefydliadau.

### Achos arwyddocaol

Cysylltodd aelod o'r cyhoedd gyda'r Comisiynydd am ymgynghoriad Cyngor Sir Ceredigion ar ddyfodol ysgolion cynradd gwledig. Yn marn yr achwynydd nid oedd ystyriaeth ddigonol i'r Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori. Ymatebodd y Cyngor gan gydnabod nad oedd wedi cydymffurfio â'r safonau llunio polisi, a chytunwyd i ddiwygio'r ddogfen gan ymestyn y cyfnod ymgynghori i roi cyfle teg i bawb ymateb.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng swyddogion y Comisiynydd a'r Cyngor, a rhoddwyd cyngor ar gryfhau'r ystyriaethau i'r Gymraeg. Ymrwymodd y Cyngor i weithredu'n gyflym a chyflwyno'r dogfennau newydd i'w rhanddeiliaid. Oherwydd y camau a gymerwyd, ni chynhaliwyd ymchwiliad pellach.

Yn yr achos hwn, llwyddwyd i newid arferion y sefydliad cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben. Er y byddai ymchwiliad o bosib wedi canfod methiant wedi i'r cyfnod ymgynghori ddirwyn i ben, ni fyddai wedi bod posib dylanwadu ar y broses ymgynghori yn amserol.

**4.4.3** Yn 2024, cynhaliwyd llinell ymholi benodol i ddeall yn well sut mae sefydliadau'n cydymffurfio â'r safonau llunio polisi. Mae llinellau ymholi o'r fath yn rhan hanfodol o waith rheoleiddio'r Comisiynydd, gan eu bod yn galluogi dadansoddiad manylach ac yn ategu'r gwaith monitro rheolaidd.

**4.4.4** Canolbwyntiodd y llinell ymholi hon ar:

- Sut mae sefydliadau'n ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg
- Gasglu gwybodaeth a thystiolaeth fanwl y tu hwnt i'r hyn sy'n bosibl drwy waith gwirio ac arolygon arferol.

**4.4.5** Gofynnwyd i sefydliadau roi barn am eu lefel sicrwydd cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r tri grŵp o safonau perthnasol:

- Safonau gwneud penderfyniad polisi
- Safonau dogfen ymgynghori
- Safonau ymchwil.

**4.4.6** Ymatebodd 89 o sefydliadau (71% o'r rhai sy'n dod o dan y safonau) i'r cais am wybodaeth.

**4.4.7** Yn gyffredinol, nododd sefydliadau lefel uwch o sicrwydd na'r hyn a gafwyd drwy ddadansoddiad y Comisiynydd ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd.

**4.4.8** Cafwyd enghreifftiau o arferion da, gan gynnwys:

- Cynnal asesiadau effaith ar y Gymraeg ar wahân i asesiadau eraill
- Darparu canllawiau clir yn pwysleisio bod dau ofyniad ar gyfer dogfennau ymgynghori: ystyried barn a cheisio barn, ac mai dim ond drwy fodloni'r ddau y gellir cydymffurfio.

### Arfer da

Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi addasu ei drefniadau ar gyfer asesu effaith penderfyniadau polisi fel bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar wahân. Nododd cynrychiolydd o'r Parc – "Daethpwyd i'r casgliad bod cael yr asesiad effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r asesiad integredig ehangach yn annigonol... penderfynwyd cynnal yr asesiad o'r effaith ar y Gymraeg a'i ddogfennu mewn dogfen ar wahân i'r asesiad integredig, a fyddai'n galluogi llawer mwy o fanylder a dyfnder i gael eu dogfennu yn yr asesiad yn y cam cychwynnol".

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllaw i staff wrth iddynt ymgynghori ar benderfyniadau polisi sy'n egluro gofynion y safonau mewn modd clir a chryno.

Mae hyn yn allweddol i sicrhau bod staff â dealltwriaeth o'r hyn sydd angen ei gyflawni wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori. Gwneir yn glir bod dau ofyniad o dan y safonau yn ymwneud ag ymgynghori ar benderfyniad polisi, sef 'ystyried' a 'cheisio barn'. Mae'r canllaw hefyd yn cyfeirio at achos Tribiwnlys diweddar oedd yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi, gan ddarparu dolen, er mwyn rhoi cyfle i staff ddarllen mwy am yr egwyddorion gafodd eu sefydlu yn y dyfarniad. Ceir hefyd restr o effeithiau posib i'w hystyried yn y canllaw fel arweiniad pellach i'r staff.

Gellir darllen mwy am yr arferion da adnabuwyd fel rhan o'r llinell ymholi yn yr adroddiad yma:

Penderfyniadau Polisi a'r Gymraeg: Ymdrech gydwybodol?

**4.4.9** Mae'r adroddiad llawn, Penderfyniadau Polisi a'r Gymraeg: Ymdrech gydwybodol?, ar gael ar wefan y Comisiynydd. Mae'n cynnwys dadansoddiad manwl o'r ffordd y mae sefydliadau'n ystyried y Gymraeg wrth lunio penderfyniadau polisi, ynghyd ag argymhellion clir i wella cydymffurfiaeth â'r safonau perthnasol.

### Prif ganfyddiadau'r llinell ymholi:

- Mae lefel y sicrwydd a nodir gan sefydliadau yn aml yn uwch na'r hyn a gefnogir gan dystiolaeth fanwl
- Mae diffyg cysondeb yn y ffordd y cynhelir asesiadau effaith ar y Gymraeg
- Ceir enghreifftiau o arferion da, ond mae angen mwy o eglurder a chydlyniad wrth weithredu'r safonau llunio polisi.

### Prif gasgliadau ac argymhellion

Mae'r modd y mae sefydliadau'n ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae mwy a mwy o sefydliadau bellach yn dangos dealltwriaeth ddyfnach nid yn unig o ofynion y safonau llunio polisi, ond hefyd o'u pwrpas a'u heffaith strategol.

Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r llinell ymholi yn amlygu bod trefniadau presennol mewn nifer o sefydliadau yn dal i fod angen eu hadolygu. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ystyriaeth briodol a chydwybodol yn cael ei rhoi i unrhyw effaith bosibl ar y Gymraeg a'i defnydd – nid yn unig i gydymffurfio â'r safonau, ond hefyd i gyflawni'r deilliant rheoleiddio a osodwyd gan y Comisiynydd.

Mae'n hanfodol bod sefydliadau yn gweithredu ar yr argymhellion a gyflwynwyd yn ein hadroddiad Penderfyniadau Polisi a'r Gymraeg: Ymdrech Gydwybodol?. Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn cysylltu â sefydliadau i fonitro'r camau sydd wedi'u rhoi ar waith mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn.

## 4.5 Deilliant 4: Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd

**4.5.1** Mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn elfen allweddol o normaleiddio'r iaith ac o feithrin diwylliant sefydliadol sy'n ei chefnogi. O ganlyniad, mae sefydliadau wedi cael eu hannog i adolygu effaith eu polisïau mewnol ar ddefnydd y Gymraeg, gan ystyried i ba raddau y gall y trefniadau hynny sbarduno newid cadarnhaol sy'n galluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy rheolaidd yn eu bywyd gwaith.

**4.5.2** Wrth ymateb i'r holiaduron hunanasesu eleni, nododd 69% o sefydliadau lefel uchel o gydymffurfiaeth â'r gofynion sy'n ymwneud â meithrin sgiliau Cymraeg yn y gweithlu. Yn ogystal, nododd 71% lefel uchel o gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd i annog a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

**4.5.3** Er bod y ffigurau hyn yn galonogol i raddau, mae'n hanfodol sicrhau bod y polisïau a'r gweithgareddau sy'n eu cefnogi yn cael eu gweithredu'n ymarferol ac yn arwain at effaith gadarnhaol ar brofiad staff o ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Dim ond drwy weithredu bwriadol ac effeithiol y gellir sicrhau bod y Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd gwaith sefydliadol.

**4.5.4** Canfyddiad cyffredinol ein gwaith arolygu yw fod gan sefydliadau bolisïau ar waith sy'n ymwneud â'r defnydd mewnol o'r Gymraeg. Fodd bynnag, nodwyd rhywfaint o gamddealltwriaeth ynghylch pwrpas y safon berthnasol, yn enwedig o ran ei rôl strategol.

**4.5.5** Yn benodol, mae angen cyswllt cliriach a chadarnach rhwng y polisi a'r nodau hirdymor a bennir gan Cymraeg 2050. Dylai sefydliadau allu dangos sut mae eu polisïau'n cyfrannu'n uniongyrchol at gynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg, gan sicrhau bod y Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd gwaith ac yn cael ei normaleiddio ar draws y sefydliad.

**4.5.6** Er bod y Comisiynydd wedi cyhoeddi'r ddogfen ganllaw Pecyn gweithredu: Defnydd mewnol o'r Gymraeg yn haf 2023, mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw llawer o sefydliadau wedi manteisio'n llawn ar y cyngor a gynhwyswyd ynddi.

**4.5.7** Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad oes gweithgarwch yn digwydd, ond yn hytrach nad yw'r camau hynny wedi'u dogfennu'n glir nac wedi'u cynllunio'n fwriadol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae diffyg cynllunio strategol yn gallu cyfyngu ar effaith hirdymor y gweithgarwch.

## Modelau polisi ac adnoddau

**4.5.8** Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu prif ffocws ein gwaith yn y maes hwn ar gryfhau cydweithio â phartneriaid i ddatblygu modelau polisi ac adnoddau ymarferol. Nod y gwaith hwn yw cefnogi sefydliadau i gryfhau eu polisïau mewnol ac i sbarduno newid ystyrlon yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

**4.5.9** Rydym wedi ymgysylltu â nifer o sefydliadau sy'n datblygu polisïau newydd, ac wedi cydweithio â nhw i dreialu'r modelau a ddatblygwyd, gan sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn ymarferol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Yn ogystal, rydym wedi dechrau gwaith ar ddatblygu theori newid fydd yn gosod allan y camau ymarferol y bydd angen i sefydliadau eu cymryd er mwyn symud ar hyd y continwwm o ran defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Bydd y theori newid hon yn darparu fframwaith strategol i gefnogi sefydliadau i ddeall eu sefyllfa bresennol, nodi cyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg, a chynllunio camau gweithredu clir a mesuradwy i sicrhau cynnydd cynaliadwy.

**4.5.10** Mae tudalen newydd bellach ar gael ar ein gwefan, sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau ymarferol – gan gynnwys awgrymiadau technolegol a rhestr wirio ar faterion cyflogaeth – i gefnogi sefydliadau wrth gynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg y gweithlu. Mae'r dudalen hefyd yn cynnwys dolenni at gyngor a gwybodaeth gan bartneriaid allanol.

**4.5.11** Fel y corff sy'n arwain ac yn cydlynu gweithgarwch strategol yn y maes gweithleoedd, rydym wedi parhau i drafod â phartneriaid cenedlaethol allweddol – gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r trafodaethau hyn wedi canolbwyntio ar nodi cyfleoedd cydweithio a sicrhau cydlyniad yn y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

**4.5.12** Ym mis Gorffennaf 2025 cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol undydd ar ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn ystod y flwyddyn byddwn hefyd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau i drafod materion iaith yn y gweithle, rhannu arferion da ac archwilio datrysiadau i heriau cyffredin. Disgwylir gweld mwy o sefydliadau'n adolygu eu polisïau ac yn manteisio ar yr adnoddau rydym wedi'u datblygu i gefnogi'r broses hon.

## Datblygu sgiliau'r gweithlu

**4.5.13** Un elfen allweddol o gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yw bod gan sefydliadau ddealltwriaeth glir o'u sefyllfa bresennol – gan gynnwys cael gwaelodlin gadarn a darlun cynhwysfawr o'r sgiliau Cymraeg sydd ar gael ar draws y sefydliad. Mae gwybod ble mae'r sgiliau hyn yn bodoli yn galluogi sefydliadau i gynllunio gweithgareddau yn fwy effeithiol i gynyddu defnydd ymysg siaradwyr presennol, yn ogystal â thargedu hyfforddiant mewn ffordd strategol sy'n galluogi twf yn y defnydd o'r Gymraeg ac yn gwella'r gwasanaethau a gynigir.

**4.5.14** Bydd cyflwyniad Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, ynghyd â datblygiad y fframwaith asesu sgiliau newydd, yn chwarae rhan allweddol yn hyn o beth. Byddwn yn disgwyl i sefydliadau ystyried y newidiadau hyn wrth gynllunio unrhyw welliannau i'w prosesau asesu sgiliau, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r datblygiadau polisi diweddaraf.

**4.5.15** Mae'n bwysig gallu mesur faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio yn y gweithle, a gweld pa effaith sydd gan unrhyw gynlluniau i gynyddu'r defnydd hwnnw. Rydym yn cydnabod bod gan y Comisiynydd rôl bwysig i helpu sefydliadau i wneud hyn, drwy roi arweiniad ar ddulliau mesur sy'n gweithio'n dda ac sy'n gyson. Byddwn yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid cenedlaethol i ddatblygu dulliau clir a syml i fesur cynnydd a defnydd o'r Gymraeg.

### Prif gasgliadau ac argymhellion

**Er bod sefydliadau bellach wedi mabwysiadu polisïau mewnol ar ddefnyddio'r Gymraeg, fel sy'n ofynnol dan y safonau, mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r polisïau hyn bob amser yn cyflawni'r nod craidd – sef ehangu'r cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae angen newid ymagwedd er mwyn sicrhau bod y polisïau hyn yn arwain at newid ymarferol a mesuradwy.**

**Adolygu a chryfhau polisïau presennol:** Dylai sefydliadau adolygu eu polisïau presennol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gan eu cymharu â'r modelau polisi newydd sy'n cael eu datblygu. Dylid defnyddio'r cymhariaeth hon i nodi bylchau a chyfleoedd i wella.

**Cynllunio strategol ar sail theori newid:** Dylai sefydliadau baratoi i ddefnyddio'r theori newid, unwaith y bydd ar gael, fel fframwaith strategol i gynllunio camau gweithredu clir. Bydd hyn yn sicrhau bod pob cam yn cyfrannu at gynnydd mesuradwy ar hyd y continwwm defnydd o'r Gymraeg.

**Gweithredu cynlluniau ymarferol a mesuradwy:** Dylai sefydliadau weithredu cynlluniau clir, realistig a mesuradwy i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan wneud defnydd llawn o'r arweiniad ac adnoddau sydd ar gael ar wefan y Comisiynydd.

**Monitro sgiliau a defnydd iaith:** Dylai sefydliadau fabwysiadu dulliau systematig o asesu a chofnodi sgiliau iaith a monitro defnydd y Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi casglu data perthnasol, asesu cynnydd, ac adnabod beth sy'n gweithio dros amser.

## 4.6 Deilliant 5: Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd

**4.6.1** Mae'r safonau hybu yn gosod gofynion clir ar awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i lunio a chyhoeddi strategaeth bum mlynedd. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y maent yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso ei defnydd ehangach yn eu hardaloedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, rhaid iddynt asesu i ba raddau y maent wedi cyflawni'r amcanion a'r targedau a osodwyd, ac yna gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o fewn pum mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth wreiddiol.

4.6.2 Mae cyfnodau neu oes strategaethau yn amrywio'n helaeth ar draws y sefydliadau. Mae'r tabl isod yn dangos cyfnod y strategaethau hybu cyfredol, gyda'r rhai wedi'u hamlygu mewn glas yn cynrychioli'r sefydliadau hynny sydd wrthi'n adolygu, neu'n disgwyl adolygu, eu strategaethau yn ystod 2025:

| Sefydliad | Dyddiad strategaeth gyfredol |
|---|---|
| **Cyngor Sir y Fflint** | **2019-2024** |
| **Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** | **2020-2025** |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 2021-2026 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 2021-2026 |
| Cyngor Sir Benfro | 2021-2026 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 2022-2027 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 2022-2027 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 2022-2027 |
| Cyngor Caerdydd | 2022-2027 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 2022-2027 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 2022-2027 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 2022-2027 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 2022-2027 |
| Cyngor Sir Fynwy | 2022-2027 |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 2023-2028 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 2023-2028 |
| Parc Cenedlaethol Penfro | 2023-2028 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 2023-2028 |
| Cyngor Sir Gar | 2023-2028 |
| Cyngor Gwynedd | 2023-2033 |
| Cyngor Ceredigion | 2024-2029 |
| Cyngor Torfaen | 2024-2029 |
| Cyngor Conwy | 2024-2029 |
| Cyngor Abertawe | 2024-2029 |
| Cyngor Powys | 2025-2030 |

**4.6.3** Gwelir o'r tabl uchod fod 19 o sefydliadau bellach yn gweithredu eu hail strategaeth, gyda dau sefydliad yn y broses o'i diwygio ar hyn o bryd. Yn ystod y tair blynedd nesaf, bydd 13 o sefydliadau'n diwygio eu strategaethau, gyda phump arall yn gwneud hynny yn ystod 2028.

**4.6.4** Yn 2023-24, comisiynwyd adolygiad o'r strategaethau hybu, a ddatgelodd anghysondeb yn y dulliau a ddefnyddiwyd gan sefydliadau i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am gyflawniad eu strategaethau. Nodwyd fod 20 o sefydliadau wedi cyfeirio at ddata ar siaradwyr Cymraeg yn eu hasesiadau, ond dim ond 15 ohonynt a ddarparodd wybodaeth fanwl am y gweithgareddau hybu a gynhaliwyd. O ganlyniad, methodd saith sefydliad â chydymffurfio'n llawn â gofynion y safonau perthnasol.

**4.6.5** Dangosodd yr adolygiad hefyd fod diffyg cysondeb yn y ffordd y mae sefydliadau'n defnyddio data i gynllunio ac asesu cynnydd yn erbyn dangosyddion a thargedau'r strategaethau. Methodd dau sefydliad â chydymffurfio â'r ddyletswydd hon, a nodwyd ansicrwydd cyffredinol ynghylch sut i osod targedau "realistig" a "mesuradwy".

### Arfer da

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi llwyddo i roi prosesau ar waith i gasglu data meintiol ac ansoddol er mwyn gallu asesu ac adrodd ar gynnydd ar gyflawniad ac effaith ei strategaeth 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg.

Astudiaeth achos arfer da trefniadau asesu strategaeth hybu CBS Blaenau Gwent.

**4.6.6** Rydym yn awyddus i'r safonau hybu ddod yn gerbyd mwy effeithiol ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol – nid yn unig mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, ond hefyd mewn ardaloedd gyda dwysedd is o siaradwyr. Gweledigaeth y Comisiynydd yw bod strategaethau hybu'n cael eu datblygu drwy gydweithio ag ystod eang o bartneriaid allweddol, gan greu dull cyd-gysylltiedig o gynllunio ieithyddol sy'n adlewyrchu anghenion cymunedau lleol.

**4.6.7** Dangosodd yr adolygiad fod lefel y cydweithio â phartneriaid yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau. Nododd nifer ohonynt fod cydweithio ag eraill wedi bod yn allweddol i lwyddiant eu strategaethau, gan ei ddisgrifio fel "caffaeliad mawr", "cynhyrchiol" ac "hollbwysig" – yn enwedig wrth osod a chyflawni targedau ystyrlon.

### Arfer da

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu strategaeth effeithiol i hybu'r Gymraeg ar yr ynys.  Gwelwyd fod bod yn rhan o'r fforwm iaith a gweithio mewn partneriaeth yno yn rhoi'r cyfle i sefydliadau ar yr ynys i ddod at ei gilydd, ac i rannu arfer dda, ac i gyd-gynllunio a gweithio efo'i gilydd ar lefel ymarferol i wireddu prosiectau all wneud gwir wahaniaeth.

Astudiaeth achos arfer da gweithio mewn partneriaeth i hybu'r Gymraeg.

**4.6.8** Fodd bynnag, mae rhai sefydliadau'n wynebu anawsterau wrth geisio sicrhau cefnogaeth gan bartneriaid i'w strategaethau hybu. Yn aml, mae hyn oherwydd nad oes unrhyw ddyletswydd statudol ar y partneriaid i gydweithio, ac nad yw hybu'r Gymraeg yn flaenoriaeth iddynt o reidrwydd.

**4.6.9** Cyflwynodd yr adolygiad gyfres o argymhellion ymarferol i adeiladu ar lwyddiannau presennol a mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd. Ymhlith y rhain roedd yr awgrym i sefydlu strategaethau ar gyfer cyfnod hwy, megis deng mlynedd, gan greu lle i fwy o uchelgais ac arloesedd – heb fynd yn groes i ofynion Safon 146, sy'n mynnu adolygiad bob pum mlynedd.

**4.6.10** Argymhellwyd hefyd y dylai pob sefydliad sefydlu fforwm iaith i gryfhau atebolrwydd a chydlyniad wrth weithredu'r strategaethau. Nodwyd bod fforymau o'r fath eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol mewn rhai sefydliadau.

**4.6.11** Dylid cofio nad yw'r strategaethau hybu'n bodoli mewn gwagle. Maent yn rhan o dirwedd bolisi ehangach sy'n cynnwys nifer o fentrau cenedlaethol sy'n cyfrannu at yr un nod – hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

**4.6.12** Mae gan bob awdurdod lleol Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), sy'n anelu at gynyddu nifer y dysgwyr sy'n derbyn addysg drwy'r Gymraeg a chryfhau'r ddarpariaeth ar draws pob cyfnod addysg. Bellach, gyda phasio Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, disgwylir newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y cynlluniau hyn eu llunio, eu gweithredu a'u monitro.

**4.6.13** Mae'r Deddf hefyd yn debygol o sbarduno adolygiad o'r safonau hybu, gan ystyried a oes angen eu diwygio neu eu hymestyn i gefnogi amcanion y ddeddfwriaeth newydd.

**4.6.14** Yn ogystal, cyhoeddodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ei adroddiad ym mis Awst 2024, gan gynnwys 57 o argymhellion ar sut i gynnal a chryfhau'r Gymraeg mewn cymunedau. Ymhlith y rhain roedd yr awgrym i ddiwygio'r safonau hybu fel eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau nodi'n benodol sut y byddant yn darparu ar gyfer cymunedau o arwyddocâd ieithyddol uchel, gyda phwyslais ar gynyddu defnydd y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymateb i'r adroddiad ac wedi croesawu'r argymhellion, gan nodi y byddant yn sail i gamau polisi pellach yn y maes hwn.

**4.6.15** O ystyried y cyd-destun polisi a deddfwriaethol sy'n esblygu, mae'r Comisiynydd yn awyddus i gydweithio'n agos â sefydliadau yn ystod 2025-26 a'r blynyddoedd i ddod – nid yn unig i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r adnoddau i weithredu eu strategaethau presennol yn effeithiol, ond hefyd i'w paratoi ar gyfer y newidiadau sydd ar ddod. Bydd hyn yn sicrhau bod y strategaethau hybu'n parhau i fod yn berthnasol, uchelgeisiol ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

### Prif gasliadau ac argymhellion

**Mae'r mwyafrif o sefydliadau wedi cydymffurfio â gofynion y safonau hybu o ran cyfnodau'r strategaethau pum mlynedd. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb yn y ffordd y mae gwybodaeth am gyflawniad y strategaethau'n cael ei gasglu a'i chyhoeddi, gyda dulliau defnyddio data i asesu cyrhaeddiad yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau.**

**Yn ogystal, mae cydweithio â phartneriaid allweddol yn cael ei gydnabod fel elfen hanfodol i lwyddiant y strategaethau. Serch hynny, mewn rhai ardaloedd, mae diffyg rhwymedigaeth ar bartneriaid i gydweithio yn parhau i fod yn rhwystr i weithredu effeithiol.**

**Cydweithio ac atebolrwydd lleol:** Dylai sefydliadau gryfhau eu dulliau o ymgynghori a chydweithio drwy sefydlu fforymau iaith (lle nad ydynt eisoes yn bodoli), er mwyn sicrhau atebolrwydd, cydlynu a chynrychiolaeth leol gadarn.

**Casglu a defnyddio data:** Dylai sefydliadau adolygu eu trefniadau ar gyfer casglu a defnyddio data perthnasol, gan sicrhau bod modd gosod targedau ystyrlon a mesur cynnydd ac effaith yn eu herbyn yn gyson ac yn dryloyw.

**Parodrwydd ar gyfer newid polisi:** Dylid sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ymateb yn rhagweithiol i'r newidiadau polisi a deddfwriaethol hyn, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau i ofynion y safonau hybu.

## 4.7 Deilliant 6: Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo

### Cyd-reoleiddio a thryloywder

**4.7.1** Mae cyd-reoleiddio effeithiol yn dibynnu ar rannu gwybodaeth, meithrin diwylliant agored a thryloyw, ac ar gydnabyddiaeth fod gan bawb rôl i'w chwarae.

**4.7.2** Rôl y Comisiynydd yw cynnig cefnogaeth ac arweiniad amserol a rhagweithiol, er mwyn gwella dealltwriaeth sefydliadau o'r disgwyliadau sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae cyfrifoldeb ar sefydliadau i rannu gwybodaeth gyda ni ac i weithredu'n dryloyw, gan ein galluogi i gynllunio'r gefnogaeth fwyaf priodol.

**4.7.3** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gofynnwyd i bob sefydliad lenwi holiadur hunanasesu, gan fynegi eu barn am gydymffurfiaeth ar draws yr holl safonau. Roedd yr holiadur hefyd yn gyfle i rannu gwybodaeth a thystiolaeth, naill ai i gefnogi'r asesiad neu i ddangos camau a gymerwyd i wella cydymffurfiaeth.

**4.7.4** Er bod rhai sefydliadau wedi cymryd camau i gryfhau eu dull o hunan reoleiddio, mae'r darlun cyffredinol yn dangos bod angen mwy o waith i sicrhau bod y Gymraeg yn cael y lefel briodol o flaenoriaeth a chraffu. Mae'r Comisiynydd wedi darparu arweiniad a chefnogaeth i sefydliadau yn y maes hwn drwy sesiynau gwybodaeth a datblygu adnoddau ymarferol.

**4.7.5** Yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf, mae'r Comisiynydd yn disgwyl gweld sefydliadau yn dogfennu'r prosesau hyn yn gynyddol, gan sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn systematig mewn adroddiadau rheolaidd i fwrdd neu fforwm gyffelyb a mewn asesiadau perfformiad.

**4.7.6** Byddwn yn monitro'r maes hwn yn agos, ac yn disgwyl gweld tystiolaeth glir o arweinyddiaeth strategol, cynllunio bwriadol, a hunan reoleiddio effeithiol.

## Llywodraethu a goruchwylio

**4.7.7** Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i sefydliadau fabwysiadu dull gweithredol o hunan reoleiddio, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith sy'n galluogi craffu parhaus ar gydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.

**4.7.8** Mae'n hanfodol bod Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr yn arwain drwy esiampl, gan gynnwys y Gymraeg yn ganolog i drafodaethau ar lefel bwrdd – o gynllunio strategol i fonitro perfformiad.

**4.7.9** Lle bo methiannau'n codi, disgwylir atebolrwydd clir a chamau priodol i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae'r safonau atodol yn gosod dyletswyddau penodol ar drefniadau llywodraethu. Nodwyd yn adroddiad 2023-24 fod angen i sefydliadau roi sylw dyledus i'r rhain er mwyn sicrhau gwelliant gwirioneddol.

**4.7.10** Mae gwaith monitro eleni'n dangos bod nifer o sefydliadau'n dal i fethu â chyhoeddi dogfen sy'n cofnodi trefniadau goruchwylio, hyrwyddo gwasanaethau, a hwyluso eu defnydd. Mae hyn yn annerbyniol, yn enwedig gan fod rhai sefydliadau wedi bod yn ddarostyngedig i'r safonau ers sawl blwyddyn. Lle bo ymdrechion blaenorol i gymell cydymffurfiaeth wedi methu, bydd y Comisiynydd yn ystyried defnyddio ei bwerau gorfodi drwy gynnal ymchwiliadau statudol ar fenter.

## Adroddiadau blynyddol

**4.7.11** Mae adroddiadau blynyddol yn rhan allweddol o drefniadau hunan reoleiddio. Maent yn cynnig sicrwydd i'r cyhoedd fod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu'n briodol ac yn cael eu monitro'n rheolaidd. I'r sefydliadau eu hunain, maent yn arf gwerthfawr i adolygu trefniadau, adnabod gwendidau a dathlu llwyddiannau.

**4.7.12** Er bod y safonau'n nodi gofynion penodol ar gyfer adrodd data, mae'r adroddiadau blynyddol hefyd yn gyfle i sefydliadau gynnwys gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol ac yn adlewyrchu eu perfformiad wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion sy'n helpu i fesur effaith.

**4.7.13** Disgwylir i adroddiadau blynyddol fynd drwy broses fewnol o graffu a chymeradwyo cyn eu cyhoeddi. Eleni, fodd bynnag, nodwyd methiannau gan rai sefydliadau i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon – gan gynnwys methu â chyhoeddi'n brydlon, hepgor gwybodaeth statudol, neu beidio â chyhoeddi o gwbl.

**4.7.14** Yn ystod 2025-26, byddwn yn adolygu'r data a gyflwynir mewn adroddiadau blynyddol, gan ystyried lle y gellir gwella'r arweiniad a roddir i sefydliadau. Nod hyn yw sicrhau bod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth berthnasol, gyson ac o ansawdd uchel.

**4.7.15** Byddwn hefyd yn adolygu'r prosesau casglu a dadansoddi data, er mwyn gallu craffu'n fanylach ar y wybodaeth a gyflwynir. Bydd hyn yn helpu i adnabod tueddiadau, deall effaith trefniadau cydymffurfiaeth, a chysylltu'r data â meysydd allweddol megis sgiliau'r gweithlu a chwynion.

## Gweithdrefnau cwynion

**4.7.16** Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, mae cwynion yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am brofiadau defnyddwyr. Mae'n hanfodol bod gan ddefnyddwyr lais, a bod sefydliadau'n ymateb i'r adborth hwnnw fel rhan o ymdrech barhaus i wella gwasanaethau.

**4.7.17** Yn ystod 2025-26, byddwn yn cynnal llinell ymholi allweddol ar weithdrefnau cwyno sefydliadau. Nod y gwaith hwn fydd asesu pa drefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd, sicrhau eu bod yn hygyrch, clir ac effeithiol, a darparu arweiniad i sefydliadau ar sut i'w gwella lle bo angen.

## Gwasanaethau a ddarperir drwy gontract neu gytundeb

**4.7.18** Mae'n hollbwysig bod gwasanaethau a ddarperir gan drydydd partïon hefyd yn cydymffurfio'n llawn â'r dyletswyddau iaith. Dylai unrhyw gytundeb neu gontract gyda darparwyr allanol gynnwys darpariaethau penodol, eglur a rhwymol ynghylch darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid i'r rhain gael eu nodi'n glir o'r cychwyn cyntaf, gan sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu cyfathrebu'n effeithiol ac yn cael eu monitro drwy gydol oes y cytundeb.

**4.7.19** Yn ogystal, dylai trefniadau llywodraethu mewnol pob sefydliad gynnwys mecanweithiau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso cydymffurfiaeth gwasanaethau trydydd parti â'r dyletswyddau iaith. Dylid sicrhau bod y cyfrifoldeb hwn yn cael ei ddeall yn glir ar bob lefel o'r sefydliad, gan gynnwys adrannau gweithredol megis adnoddau dynol a recriwtio. Eleni, daeth i'r amlwg bod diffyg ymwybyddiaeth neu weithredu effeithiol mewn rhai sefydliadau, sy'n tanlinellu'r angen am hyfforddiant, arweiniad a goruchwyliaeth barhaus i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd.

### Achos arwyddocaol

Cafwyd cwyn bod y Cyngor heb asesu'r angen am sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu swyddi yn eu canolfannau hamdden. Gosodwyd camau gweithredu er mwyn iddynt addasu eu trefniadau gyda darparwr trydydd parti, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau hamdden ar ran y Cyngor, er mwyn sicrhau bod y safonau recriwtio yn cael eu dilyn.

Yn sgil hyn, gohebwyd gyda phob sefydliad sy'n dod o dan safonau'r Gymraeg, ac ychwanegwyd gwybodaeth berthnasol ar ein gwefan.

### Prif gasgliadau ac argymhellion

**Mae cyd-reoleiddio effeithiol yn dibynnu ar sefydliadau'n gweithredu mewn modd agored, tryloyw ac atebol. Er bod enghreifftiau cadarnhaol o sefydliadau sydd wedi llwyddo i integreiddio'r Gymraeg yn strategol o fewn eu trefniadau llywodraethu a monitro – gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar y lefel uchaf o arweinyddiaeth – nid yw'r dull hwn wedi'i fabwysiadu'n gyson.**

**Mae hyn yn tanlinellu'r angen am gamau pendant i sicrhau dull llywodraethu sy'n fwy systematig, cynaliadwy ac effeithiol ar gyfer cydymffurfio â'r dyletswyddau iaith.**

**Cryfhau llywodraethu a monitro:** Dylai sefydliadau adolygu ac atgyfnerthu eu trefniadau llywodraethu a monitro, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael y lefel briodol o flaenoriaeth a sgrwtini ar lefel bwrdd, ac y ceir mecanweithiau cadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth yn barhaus.

**Tryloywder, atebolrwydd ac ymateb effeithiol i gwynion:** Dylai pob sefydliad gymryd camau pendant i gryfhau tryloywder ac atebolrwydd drwy gyhoeddi dogfennau sy’n nodi’n glir eu trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion, goruchwylio cydymffurfiaeth, hyrwyddo gwasanaethau, a hwyluso eu defnydd – i gyd yn unol â gofynion y safonau. Mae sicrhau bod gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer delio â chwynion, ynghyd â hyfforddiant priodol i staff, yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth ac ymateb yn effeithiol i bryderon y cyhoedd.

**Sicrhau adroddiadau blynyddol cadarn:** Dylid rhoi mesurau cadarn ar waith i sicrhau bod adroddiadau blynyddol ar gydymffurfiaeth yn cynnwys yr holl ddata gofynnol, ac yn cael eu cyhoeddi’n brydlon, yn unol â’r amserlen a nodir yn yr hysbysiad cydymffurfio neu gynllun iaith.

# Atodiad 1: Rhestr gyflawn o'r sefydliadau gafodd eu monitro fesul blwyddyn dros y pedair mlynedd ddiwethaf

## Sampl 2024-25 (*Grŵp 2)

### Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1)

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Sir Y Fflint
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Casnewydd
- Cyngor Sir Gar
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Sir Powys
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Gweinidogion Cymru.

Yn achos awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol, gweithredwyd ar sail asesu risg eleni. O ganlyniad, ni chafodd pob sefydliad ei gynnwys ym mhob arolwg gwirio. Serch hynny, sicrhawyd bod pob sefydliad wedi cymryd rhan mewn o leiaf dau arolwg yn ystod y cyfnod.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2)

- Amgueddfa Cymru
- Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch
- Canolfan Mileniwm Cymru
- Chwaraeon Cymru
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)
- Cyngor Llyfrau Cymru
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- National Theatre of Wales
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- S4C
- Swyddfa Archwilio ac Archwilydd Cyffredinol
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
- Theatr Genedlaethol Cymru.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4)

- Tribiwnlys Adolygiad Iechyd Meddwl Cymru
- Tribiwnlys Prisio Cymru
- Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5)

- Awdurdod Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6)

- Addysg Oedolion Cymru
- Coleg Cambria
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Gwent
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Sir Gar a Ceredigion
- Grwp Llandrillo Menai
- Gyrfa Cymru
- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Wrecsam.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7)

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8)

- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol

- Y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

*holiaduron hunan asesu yn unig

### Sefydliadau sydd yn gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg

- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Arolwg Ordnans
- Asiantaeth Safonau Bwyd
- Cofrestrfa Tir Ei Fawrhydi
- Comisiwn Elusennau
- Cyngor Defnyddwyr Dŵr
- Swyddfa Brisio
- Swyddfa Cymru
- Swyddfa Eiddo Deallusol
- Swyddfa Gartref
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol
- Comisiwn Apwyntiadau Barnwrol
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF
- Gwasanaeth Arian a Phensiynau
- Y Coleg Plismona.

## Sampl 2023-24 (*Grŵp 1)

### Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1)

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Casnewydd
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Gweinidogion Cymru.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2)

- Colegau Cymru
- Opera Genedlaethol
- Comisiynydd Plant
- Comisiynydd Pobl Hŷn
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Comisiwn Etholiadau
- Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cwmni Benthyciadau
- Estyn
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol
- Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Y Gorfforaeth Darlledu Brydeinig
- Y Swyddfa Gyfathrebiadau
- Data Cymru.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4)

- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Gofal Cymdeithasol Cymru

- Tribiwnlys Addysg Cymru
- Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5)

- Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
- Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
- Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6)

- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Coleg Gwyr Abertawe
- Coleg Merthyr Tudful
- Coleg Pen-y-bont
- Coleg y Cymoedd
- Grŵp NPTC
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol De Cymru
- Y Brifysgol Agored.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7)

- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### Sefydliadau sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg

- Cyllid a Thollau EF
- Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF
- Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- Tŷ'r Cwmnïau
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau
- Asiantaeth Taliadau Gwledig
- Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
- Dŵr Cymru
- Grŵp y Post Brenhinol
- Hafren Dyfrdwy
- Hybu Cig Cymru.

## Sampl 2022-23 (*Grŵp 2)

### Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1)

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Bro Morgannwg

- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Casnewydd
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Gweinidogion Cymru.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2)

- Cyngor Llyfrau Cymru
- Amgueddfa Cymru
- Canolfan Mileniwm Cymru
- Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd
- Chwaraeon Cymru
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- National Theatre Wales
- Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus
- S4C
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Theatr Genedlaethol Cymru.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4)

- Tribiwnlys Adolygiad Iechyd Meddwl Cymru
- Tribiwnlys Prisio Cymru
- Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5)

- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Heddlu Dyfed Powys
- Heddlu De Cymru.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6)

- Addysg Oedolion Cymru
- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Coleg Cambria
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Gwent
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Sir Gâr/Ceredigion
- Grŵp Llandrillo Menai
- Gyrfa Cymru
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Glyndŵr
- Prifysgol Met Caerdydd.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7)

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### Sefydliadau sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg

- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Arolwg Ordnans
- Asiantaeth Safonau Bwyd
- Cofrestrfa Tir EF
- Comisiwn Elusennau
- Cyngor Defnyddwyr Dŵr
- Swyddfa Brisio
- Swyddfa Cymru
- Swyddfa Eiddo Deallusol
- Swyddfa Gartref
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Ymddiriedolaeth Garbon
- Comisiwn Apwyntiadau Barnwrol
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF
- Gwasanaeth Arian a Phensiynau
- Y Coleg Plismona.

## Sampl 2021-22 (*Grŵp 1)

### Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1)

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Casnewydd

- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Sir Penfro Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Mon
- Gweinidogion Cymru.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2)

- Colegau Cymru Cyf
- Comisiwn Henebion Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hyn Cymru
- Gronfa Gymunedol Y Loteri Cenedlaethol
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Estyn
- Opera Genedlaethol Cymru
- Sefydliad Dysgu A Gwaith
- Uned Data Llywodraeth Leol Cymru
- Y Comisiwn Etholiadol
- BBC
- Y Swyddfa Gyfathrebiadau.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4)

- Cyngor Y Gweithlu Addysg
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Tribiwnlys Eiddo Prisio Cymru.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5)

- Comisiynydd Heddlu a Throseddi Dyfed Powys
- Comisiynydd Heddlu a Throseddi Gwent
- Gwasanaeth Tan Ac Achub De Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Heddlu Gwent
- Heddlu Trafnidiaeth Prydain
- Swyddfa Annibynnol Ymddygiad Yr Heddlu.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6)

- Coleg Caerdydd A'r Fro
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Coleg Pen-y-bont
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Cymru Drindod Dewi Sant
- Prifysgol De Cymru
- Y Brifysgol Agored
- Coleg Y Cymoedd
- Grŵp NPTC
- Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig.

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7)

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd A'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Sefydliadau sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg

- Adran Gwaith a Phensiynau
- Asiantaeth Safonau Gyr a Cherbydau
- Asiantaeth Taliadau Gwledig
- Asiantaeth trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- Gronfa Goffa'r Treftadaeth Genedlaethol
- Cyllid a Thollau EM
- Dŵr Cymru
- Dŵr Hafren Dyfrdwy
- Grŵp y Post Brenhinol
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM
- Hybu Cig Cymru
- Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- Tŷ'r Cwmnïau.

# Atodiad 2: cynllun monitro, asesu a gweithredu 2021-2025

Bu'r Comisiynydd yn gweithredu cynllun monitro, asesu a gweithredu am y bedair blynedd ddiwethaf, rhwng 2021-22 a 2024-25, a hynny fel modd o fonitro cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg a chynnal ymrwymiadau cynlluniau iaith Gymraeg.

Amcanion y cynllun o ran rheoleiddio perfformiad sefydliadau oedd:

- Canolbwyntio ar gydymffurfiaeth
- Cau bylchau gwybodaeth a gwella sut rydym yn darganfod diffygion
- Hybu hunan reoleiddio
- Gweithredu ar ddiffygion
- Defnyddio'r ymyrraeth leiaf.

Gwnaed hyn drwy:

- **Monitro:** casglu tystiolaeth am gydymffurfiaeth pob sefydliad â phob dyletswydd dros gyfnod
- **Asesu:** a yw'r dystiolaeth honno'n dangos cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau sydd wedi eu gosod neu beidio
- **Gweithredu:** Cymryd camau gweithredu i sicrhau bod sefydliadau'n cywiro unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth. Gall y camau gweithredu hynny gynnwys cynnal ymchwiliad ar fenter y Comisiynydd, gyda'r posibilrwydd o osod camau gorfodi pe canfyddid methiant
- **Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad:** Dadansoddi canlyniadau a ffurfio canfyddiadau ar sail y gwaith, a'u cyhoeddi, gan roi trosolwg o berfformiad.


Penderfynwyd monitro rhan helaeth y sefydliadau bob yn ail flwyddyn ac eithrio sefydliadau Rheoliadau Rhif 1 a 7 a gafodd eu monitro yn flynyddol.

- Rheoliadau Rhif 1 – blynyddol
- Rheoliadau Rhif 2 – bob yn ail flwyddyn
- Rheoliadau Rhif 4 – bob yn ail flwyddyn
- Rheoliadau Rhif 5 – bob yn ail flwyddyn
- Rheoliadau Rhif 6 – bob yn ail flwyddyn
- Rheoliadau Rhif 7 – blynyddol
- Cynlluniau iaith Gymraeg – bob yn ail flwyddyn.

Roedd y gweithgareddau i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Gwirio uniongyrchol o wasanaethau penodol
- Gwirio dogfennau atodol
- Holiadur hunan asesu i'w gwblhau gan y sefydliadau
- Cyfarfod casglu tystiolaeth gyda'r sefydliadau
- Cynnal asesiad sicrwydd i:
    - Gywain yr holl dystiolaeth,
    - Bennu lefel sicrwydd o gydymffurfiaeth
    - Bennu camau gweithredu
    - Ddadansoddi ac adrodd ar gydymffurfiaeth blynyddol.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



FF: 0345 6033 221

E: post@cyg-wlc.cymru

@comygymraeg

@comygymraeg

ComisiynyddyGymraeg

Comisiynydd y Gymraeg/
Welsh Language Commissioner

comisiynyddygymraeg.cymru